



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Asesiad Strwythuredig 2017 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 470A2018-19



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Anne Beegan, Andrew Strong, Mark Jones ac Urvisha Perez.

Cynnwys

Mae dulliau o arbed yn helpu i leihau'r diffyg ariannol cynyddol, ond tra bod trefniadau gweithredol yn gadarn ar y cyfan, mae gwendidau mewn trefniadau llywodraethu ac nid yw gwybodeg yn cefnogi gwasanaethau'n effeithiol eto.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad a chefnidir	4
Canfyddiadau allweddol	5
Argymhellion	12

Adroddiad manwl

Mae dulliau o arbed yn helpu i leihau'r diffyg ariannol cynyddol, ond tra bod trefniadau gweithredol yn gadarn ar y cyfan, mae gwendidau mewn trefniadau llywodraethu ac nid yw gwybodeg yn cefnogi gwasanaethau'n effeithiol eto	15
---	----

Erbyn hyn mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi'r broses o gynllunio a monitro arbedion, ond mae'n wynebu diffyg cynyddol am y cyfnod o dair blynedd yn gorffen ym mis Mawrth 2018	15
--	----

Mae trefniadau gweithredol yn effeithiol ar y cyfan ond mae gwendidau o ran goruchwyliaeth a sicrwydd y Bwrdd, ac nid yw'n debygol y caiff y rheoliadau newydd ar ddiogelu data eu bodloni ar amser	26
---	----

Mae gweithlu ac ystadau yn cefnogi nodau'r Bwrdd lechyd yn gynyddol, ond mae gwybodeg yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny	39
--	----

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb rheolwyr y Bwrdd lechyd i argymhellion argymhellion yr asesiad strwythuredig	47
---	----

Adroddiad cryno

Cyflwyniad a chefnidir

- 1 Mae'r gwaith a wnawn fel rhan o'r asesiad strwythuredig yn helpu i lywio barn yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i adnoddau. Nododd ein gwaith yn 2016, er bod gan y Bwrdd Iechyd rai trefniadau effeithiol ar waith, fod prosesau llywodraethu wedi dirywio dros y flwyddyn ddiwethaf gan arwain at wendidau mewn rhai agweddau ar graffu, cynllun tair blynedd nas cymeradwywyd, cynnydd cyfyngedig wrth ymateb i argymhellion blaenorol a sefyllfa ariannol anghynnaladwy, nad yw'n debygol o fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2016-17.
- 2 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, adolygodd y gwaith a wnaed gennym fel rhan o'r asesiad strwythuredig ar gyfer 2017 agweddau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd ac, yn benodol, y cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion y flwyddyn flaenorol. Er mwyn cydnabod y pwysau ariannol cynyddol a wynebir gan lawer o gyrff y GIG a'r her o gyflawni'r dyletswyddau i fantoli'r gyllideb a amlinellwyd yn Neddf Cyllid GIG Cymru (Cymru) 2014, rydym hefyd wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd i gynllunio a chyflawni arbedion ariannol.
- 3 Gwnaethom hefyd ddefnyddio gwaith asesiad strwythuredig eleni i gasglu tystiolaeth i ategu sylwadau ar gyfer Cymru gyfan. Nodir sut mae cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus yn gweithio tuag at fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyflwynir adroddiad ar wahân yn cynnwys y sylwadau hyn ddechrau 2018.
- 4 Mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau, arsylwadau yn ystod cyfarfodydd y bwrdd, cyfarfodydd pwyllgorau a chyfarfodydd grwpiau rheoli, ynghyd ag adolygiadau o ddata perfformiad a chyllid a dogfennau perthnasol.
- 5 Ym mis Medi 2016, penderfynodd Llywodraeth Cymru, o dan ei Threfniadau Ymyrryd ac Uwchgyfeirio ar y Cyd, newid statws y Bwrdd Iechyd o 'fonitro manylach' i 'ymyrraeth wedi'i thargedu'. Ar y pryd, tanlinellodd Llywodraeth Cymru fod angen gwella mewn meysydd penodol, yn ymwneud yn bennaf â'r cynllun tymor canolig integredig tair blynedd.
- 6 Ym mis Tachwedd 2016, gadawodd y cyn-Brif Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd. Cymerodd y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a'r Dirprwy Brif Weithredwr y rôl fel Prif Weithredwr dros dro, nes i benodiad parhaol gael ei wneud ym mis Gorffennaf 2017.
- 7 Ym mis Mawrth 2017, gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Deloitte i gynnal adolygiad allanol o drefniadau llywodraethu ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn gyson â'n hasesiad strwythuredig blaenorol, ac yn ei ategu, fwy neu lai. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn gadarnhaol, a chaiff

hynt yr argymhellion ei fonitro'n agos drwy'r Pwyllgor Archwilio, gyda nifer o argymhellion bellach wedi'u rhoi ar waith.

- 8 Yn dilyn ei chyfarfod ym mis Gorffennaf 2017, i drafod statws uwchgyfeirio cyrff y GIG, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu newid statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd. Nododd gohebiaeth ddilynol fod angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar y pryderon canlynol:
- er bod ganddo gynllun strategol, nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy eto;
 - roedd pryderon ynghylch materion ariannol a llywodraethu yn parhau; ac
 - roedd angen i'w sefyllfa ariannol gael ei gwella'n barhaus, ac iddo ei chyflawni.
- 9 Ym mis Gorffennaf 2017, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad er budd y cyhoedd cyntaf i gorff y GIG hefyd. Canolbwyntiodd yr adroddiad hwn¹ ar wendidau mewn trefniadau llywodraethu yn y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â chaffael ac, yna, benodi ei gyn-Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn 2015 a 2016, yn y drefn honno. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, ymatebodd y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol a nododd gamau gweithredu clir er mwyn gwella. Mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd yn goruchwyllo'r broses o gymryd y camau hyn, a chaiff cynnydd da ei wneud.

Canfyddiadau allweddol

- 10 Ein casgliad cyffredinol o waith asesu strwythuredig 2017 yw bod **dulliau o arbed yn helpu i leihau'r diffyg ariannol cynyddol, ond tra bod trefniadau gweithredol yn gadarn ar y cyfan, mae gwendidau mewn trefniadau llywodraethu ac nid yw gwybodeg yn cefnogi gwasanaethau'n effeithiol eto.** Rhown grynodedb o'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod.

Cynllunio a rheoli ariannol

- 11 Wrth adolygu trefniadau rheoli a chynllunio ariannol y Bwrdd Iechyd, nodwyd gennym **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith erbyn hyn i gefnogi'r broses o gynllunio a monitro arbedion, ond ei fod yn wynebu diffyg cynyddol am y cyfnod o dair blynedd yn gorffen ym mis Mawrth 2018.**

Perfformiad ariannol

- 12 **Caiff arbedion ar gyfer 2017-18 eu rheoli'n dda, ond mae tangyflawni hanesyddol yn erbyn targedau arbedion a gorwariant diweddar yn erbyn**

¹ [Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog](#)

terfynau adnoddau yn golygu y rhagwelir y bydd gan y Bwrdd lechyd ddiffyg cronol cynyddol o £61 miliwn erbyn mis Mawrth 2018.

- 13 Yn hanesyddol mae'r Bwrdd lechyd wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cyflawni arbedion blynyddol. Er iddo gyflawni arbedion sylweddol, nid yw'r Bwrdd lechyd wedi cyflawni ei dargedau blynyddol ac mae lefelau targedau wedi gostwng yn raddol dros amser. Ers 2016 mae'r targed ar gyfer arbedion wedi dod yn fwy realistig ac, yn 2016-17 yn arbennig, er nad oedd wedi nodi'r holl gynlluniau arbed gofynnol ar ddechrau'r flwyddyn, bu bron i'r Bwrdd lechyd gyflawni ei arbedion o £26 miliwn.
- 14 Yn ystod y cyfnod o dair blynedd 2014-17, fodd bynnag, ni chyflawnodd y Bwrdd lechyd ei ddyletswydd i wario o fewn ei ddyraniad ariannol, gan orwario £50.5 miliwn. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo cynllun tymor canolig integredig tair blynedd y Bwrdd lechyd ac, ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn gweithio yn unol â chynllun gweithredu blynyddol.
- 15 Yn 2016-17, cafodd targed arbedion dirprwyedig o 3% ei bennu ar gyfer pob un o naw bwrdd clinigol a gwasanaeth y Bwrdd lechyd, ond dim ond dau a gyflawnodd y targed. Mewn blynyddoedd diweddar, mae'r gyfran o arbedion cylchol wedi bod yn uchel ond, yn 2016-17, gostyngodd y gyfran i 50% o'r holl arbedion. Roedd costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a rheoli meddyginiaethau yn cyfrif am dros hanner yr arbedion targed.
- 16 Yn 2017-18, mae gan y Bwrdd lechyd darged arbedion o £35 miliwn, a diffyg blynyddol arfaethedig o £30.9 miliwn. Mae'r diffyg arfaethedig hwn ychydig yn waeth na'r diffyg blynyddol a gofnodwyd yn 2016-17. Erbyn mis chwech, roedd y Bwrdd lechyd ar y trywydd iawn i gyflawni ei darged arbedion a'r diffyg arfaethedig yn ystod y flwyddyn. Yn ôl y wybodaeth ddiweddaraf ym mis naw, mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed. Yn sgil gwariant hanesyddol, rhagwelir y bydd y diffyg treigl tair blynedd ar gyfer 2015-18, fodd bynnag, yn £61 miliwn, sy'n £10 miliwn yn waeth na'r diffyg cronus hyd at 31 Mawrth 2017. Er gwaethaf gwelliant o ran cyflawni targedau arbedion yn ystod y flwyddyn, a'r sefyllfa ariannol gyffredinol, nid yw lefel yr arbedion a nodir ac a gyflawnir wedyn eto'n ddigonol i leihau diffyg cronus cynyddol.

Cynllunio a chyflawni arbedion ariannol

- 17 **Mae'r broses o gynllunio arbedion yn gyson â chylch cynllunio tair blynedd y Bwrdd lechyd, a chaiff y gwaith o'u cyflawni ei ategu gan wasanaethau corfforaethol. Fodd bynnag, mae lle i ailystyried y ffordd y caiff targedau eu dyrannu er mwyn manteisio ar feysydd lle mae cyfle i wneud mwy o arbedion.**
- 18 Mae'r Bwrdd lechyd yn mynd ati i gynllunio arbedion o'r brig i'r bôn, gan olygu bod y tîm cyllid corfforaethol yn gosod targed ar gyfer y Bwrdd lechyd cyfan, a gymhwysir yn gyfartal ar draws y byrddau clinigol a gwasanaeth. Meysydd gwasanaeth sy'n gyfrifol am nodi cynlluniau arbedion unigol, a'u cynllunio a'u cyflawni drwy eu cynlluniau gwella costau.

- 19 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei raglen 'turning the curve' yn ystod ail hanner 2016-17. Mae wedi darparu llwyfan i ymdrin â phroblemau ariannol y Bwrdd Iechyd. Er bod y rhaglen hon yn cael ei hadolygu, parhaodd y Bwrdd Iechyd i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu ariannol drwy gyflwyno Pwyllgor Cyllid newydd a datblygu adnodd tracio Rhaglen Gwella Costau. Adnodd cynllunio a monitro yw'r traciwr a chaiff ei ddefnyddio i fonitro cynnydd.
- 20 Mae cynlluniau arbedion yn gyson â chylch cynllunio cynllun tymor canolig integredig y Bwrdd Iechyd; mae'n ofynnol i fyrddau clinigol a gwasanaeth ddatblygu eu cynllun arbedion dros gyfnod o dair blynedd. Ymdrinnir ag arbedion ar sail cyfradd safonol ac mae perfformiad y Rhaglen Gwella Costau yn awgrymu bod modd cyflawni targedau arbedion. Fodd bynnag, mae'r defnydd o linell safonol yn golygu nac achubir ar y cyfle i nodi meysydd â mwy o botensial i arbed mwy, ac mae bellach le i'r Bwrdd Iechyd nodi targedau uwch ar gyfer meysydd lle mae mwy o botensial i arbed mwy.
- 21 Caiff swyddogaethau cyllid a gweithlu eu hintegreiddio o fewn byrddau clinigol a gwasanaeth, ac maent yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r cynllun tymor canolig integredig a chynlluniau arbedion. Mae swyddogaethau cymorth eraill fel gwybodeg hefyd yn ategu'r byrddau clinigol a gwasanaeth. Mae gan y Bwrdd Iechyd bum thema drawsbynciol, a ategir gan y Swyddfa Rheoli Rhaglenni. Hefyd, yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Bwrdd Trawsnewid, sy'n cydnabod bod angen trawsnewid gwasanaethau er mwyn cyflawni arbedion tymor hwy.

Monitro arbedion ariannol

- 22 **Gweithredir trefniadau craffu a monitro cryf ar gyfer arbedion ariannol ar lefel y Bwrdd, lefel pwyllgorau a lefel weithredol, ac mae dulliau da o ddysgu gwersi.**
- 23 Mae gan y Bwrdd Iechyd Bwyllgor Cyllid, sy'n cyfarfod bob mis. Caiff y pwyllgor hwn adroddiad manwl ar sefyllfa ariannol ddiweddaraf y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys i ba raddau mae'r byrddau clinigol a gwasanaeth yn cyflawni targedau arbedion. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Bwrdd hefyd, sy'n cyfarfod dwywaith y mis.
- 24 Mae'r gwaith o gyflawni arbedion ar lefel byrddau clinigol a gwasanaeth yn cael ei fonitro bob wythnos, a chaiff unrhyw broblemau eu trafod yn ystod adolygiadau misol o berfformiad ar lefel weithredol. Mae'r adolygiadau hyn yn cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr ac yn cynnwys pob cyfarwyddwr gweithredol. Mae trefniadau uwchgyfeirio ar waith os na fydd bwrdd clinigol neu wasanaeth ar y trywydd iawn i gyflawni'r Rhaglen Gwella Costau. Hefyd, mae cyfarwyddiaethau yn monitro eu cynlluniau arbedion ac yn adrodd i fyny i gyfarfodydd byrddau clinigol a gwasanaeth. Caiff themâu trawsbynciol eu monitro drwy'r grŵp llywio trawsbynciol.
- 25 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu syniadau ac yn dysgu gwersi ar sawl lefel weithredol mewn nifer o ffyrdd. Hefyd, caiff y Bwrdd Iechyd ei gynrychioli'n dda mewn fforymau lefel genedlaethol.

Llywodraethu a sicrwydd

- 26 Wrth adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd bwrdd y Bwrdd lechyd, canfuom fod **trefniadau gweithredol yn effeithiol ar y cyfan ond mae gwendidau o ran goruchwyliaeth a sicrwydd y Bwrdd, ac nid yw'n debygol y caiff y rheoliadau newydd ar ddiogelu data eu bodloni ar amser.**

Cynllunio strategol

- 27 **Mae gwaith cynllunio strategol yn effeithiol ar y cyfan ac yn fwyfwy unedig ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae'r gwaith o graffu ar gyflawni yn parhau i afael bwllch ar lefel Bwrdd a phwyllgor, er gwaethaf y gwaith monitro agos ar lefel weithredol.**
- 28 Methodd y Bwrdd lechyd â chyflawni ei ddyletswydd a chyflwyno cynllun tymor canolig integredig tair blynedd, ac, am yr ail flwyddyn yn olynol, mae wedi bod yn gweithio yn unol â chynllun gweithredu blynyddol. Roedd fersiynau drafft cychwynnol cynllun 2017-18 yn cynnwys diffyg arfaethedig uwch. Cytunodd y Bwrdd ar gynllun 2017-18 ym mis Mai 2017 gyda diffyg arfaethedig diwygiedig o £30.9 miliwn.
- 29 Caiff y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio a datblygu'r cynllun tymor canolig integredig yn rheolaidd, ond mae bylchau craffu ar lefel Bwrdd a phwyllgor o ran cyflawni'r cynllun. Diddymwyd y pwyllgor oedd yn gyfrifol am graffu ar gyflawni ym mis Mai 2017, ac mae'r Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu newydd yn dal i fod ar gamau cynnar. Fodd bynnag, ceir cysylltiadau cynyddol gwell rhwng y cynllun a sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd, a chaiff y broses o gyflawni'r cynllun ei fonitro'n gadarn ar lefel weithredol drwy'r adolygiadau o berfformiad ar lefel weithredol.

Strwythur y sefydliad

- 30 **Mae strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd yn parhau i aeddfedu, gyda chamau yn cael eu cymryd i wella'r cydweithio ar draws y sefydliad, er bod pryderon ynghylch adnoddau llywodraethu corfforaethol o hyd.**
- 31 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Bwrdd lechyd unrhyw newidiadau sylfaenol i'w strwythur sefydliadol er bod ganddo dîm gweithredol llawn ar waith bellach. Ymunodd y Prif Weithredwr newydd ym mis Gorffennaf 2017 gyda Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol newydd yn dilyn ym mis Hydref. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Bwrdd lechyd ar fin penodi Prif Swyddog Gweithredu parhaol.
- 32 Fodd bynnag, gan fod strwythur y bwrdd clinigol yn gallu hyrwyddo gweithio seilo, cymerodd y tîm gweithredol gamau i hyrwyddo gwaith traws-sefydliadol cynyddol, yn enwedig drwy'r adolygiadau o berfformiad ar lefel weithredol. Mae timau gwasanaeth corfforaethol yn gweithio ar draws y byrddau clinigol, gydag adnoddau

cyllid a gweithlu yn rhan o bob bwrdd clinigol. Fodd bynnag, nid yw swyddogaethau cymorth eraill yn chwarae cymaint o ran, er bod gwaith integredig yn gwella.

- 33 Mae'r tîm llywodraethu corfforaethol yn chwarae rôl weithredol wrth ddarparu her a chymorth i'r tîm gweithredol a'r strwythur sefydliadol ehangach. Er i Bennaeth Llywodraethu Corfforaethol newydd gael ei benodi ym mis Ebrill 2017, mae ein pryderon ynghylch adnoddau tîm, a nodwyd yn flaenorol, yn parhau.

Effeithiolrwydd y Bwrdd, sicrwydd a strwythurau llywodraethu'r Bwrdd

- 34 **Nid yw'r Bwrdd na rhai o'i bwyllgorau yn darparu digon o oruchwyliaeth fanwl a chyson, yn rhannol oherwydd trosiant aelodau, a nes i'r ddau bwyllgor newydd gael eu sefydlu'n llawn, mae risgiau i sicrwydd perfformiad a chynllunio.**
- 35 Gwelodd y Bwrdd lechyd gryn drosiant o ran aelodau annibynnol yn ystod 2017. Penodwyd saith aelod annibynnol newydd, er bod dau aelod annibynnol arall yn bwriadu gadael ar ddiwedd mis Rhagfyr 2017. Mae'r fath drosiant wedi peri risgiau i barhad y Bwrdd, er bod yr aelodau annibynnol sydd wedi gadael wedi darparu datganiadau etifeddol ac wedi cynnig cymorth er mwyn sicrhau cyfnod pontio llyfn. O blith y saith aelod annibynnol newydd, dim ond un oedd â phrofiad blaenorol o eistedd ar Fwrdd y GIG, gan roi pwysau cynyddol ar y Bwrdd lechyd i sicrhau bod aelodau annibynnol newydd yn barod am y rôl drwy ei raglen datblygu ar gyfer y Bwrdd.
- 36 Drwy arsylwi ar y Bwrdd a rhai o'i bwyllgorau, gwelwyd arwyddion nad yw'r lefel o graffu na herio yn gyson, fel y gwna systemau gweinyddol pwyllgorau. Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cynrychioli dau o'r pwyllgorau sy'n cael eu rhedeg yn well. Cafodd y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad blaenorol ei ddi-ddymu ym mis Mai 2017, a sefydlwyd dau bwyllgor newydd. Fodd bynnag, dim ond dau gyfarfod y mae'r pwyllgorau hyn (Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu a'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni) wedi'u cynnal ac maent yn dal i fod ar gamau cynnar. Mae'r oedi rhwng diddymu'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad, sefydlu'r pwyllgorau newydd a nawr aros iddynt ymsefydlu yn golygu bod y Bwrdd yn wynebu bylchau mewn sicrwydd.
- 37 Ysgrifennir papurau a chofnodion pwyllgorau yn dda ar y cyfan, er bod hyd papurau yn bryder oherwydd gallai lesteirio gwaith craffu da. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd wedi cydnabod bod angen gwell disgyblaeth o ran ansawdd a maint papurau, ac maent yn cymryd camau i roi mwy o ffocws iddynt.

Rheoli risg

- 38 **Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen i brosesau rheoli risg wella ac mae'n adolygu prosesau rheoli risg gweithredol a chorfforaethol. Fodd bynnag, oherwydd problemau gallu ac adnoddau o fewn y tîm llywodraethu corfforaethol bydd y broses hon yn un araf.**

- 39 Mae Fframwaith Sicrwydd a Risg Gorfforaethol cyfunol y Bwrdd lechyd wrthi'n cael ei adolygu. Mae'r Fframwaith hwn wedi bod ar waith ers pedair blynedd, ond mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen i brosesau rheoli risg wella er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd.
- 40 Mae'r Fframwaith yn ddogfen fyw ac wedi'i gyflwyno'n glir, ond nid yw risgiau eto'n gyson â'r amcanion corfforaethol, nid yw'r risgiau yn ddigon eglur, nid ydynt yn lleihau o ganlyniad i gamau lliniaru a chafodd nifer ohonynt eu dyrannu i'r pwyllgor pobl, cynllunio a pherfformiad blaenorol am rai misoedd ar ôl ei ddiddymu.
- 41 Cynhaliwyd gweithdy rheoli risg ym mis Mai 2017 ac mae camau gwella eisoes ar waith, gan gynnwys cofnodi risgiau yn well. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu lansio fersiwn newydd o'r Fframwaith yn 2018, ochr yn ochr ag adolygiad ehangach o'r polisi rheoli risg. Mae hwn yn ddarn sylweddol o waith ond prin yw'r gallu a'r adnoddau i'w wneud.

Llywodraethu gwybodaeth

- 42 **Nid yw trefniadau llywodraethu gwybodaeth y Bwrdd lechyd wedi datblygu digon eto i weithredu'r Rheoliad Cyffredinol newydd ar Ddiogelu Data erbyn mis Mai 2018.**
- 43 Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion adolygiad 'sicrwydd cyfyngedig' Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ond mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu yn dal i fynd rhagddynt, er gwaethaf y ffaith bod angen ymdrin â nhw cyn i'r Rheoliad ddod i rym yn 2018.
- 44 Mae'r Bwrdd lechyd wedi cydnabod y newidiadau deddfwriaethol a'r camau gweithredu eraill sydd eu hangen cyn cyflwyno'r Rheoliad ond araf fu'r cynnydd yn hyn o beth. Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth yn sylweddol is na'r targed o 85% ac mae amseroedd ymateb i geisiadau am wybodaeth yn araf. Hefyd, mae angen i strategaeth llywodraethu gwybodaeth y Bwrdd lechyd fod yn gyson â'r strategaeth ddigidol genedlaethol. Tîm llywodraethu gwybodaeth bach sydd gan y Bwrdd lechyd a bydd ei allu i fodloni'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn effeithiol yn heriol yn yr amser sydd ar gael.

Rheoli perfformiad

- 45 **Mae systemau rheoli perfformiad gweithredol yn gadarn ac yn gynhwysfawr, ond nid yw goruchwyliaeth y Bwrdd na phwyllgorau yn effeithiol eto.**
- 46 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau rheoli perfformiad cryf. Mae'r tîm gweithredol yn dwyn pob bwrdd clinigol a gwasanaeth i gyfrif drwy gyfarfodydd adolygu perfformiad rheolaidd, sydd â ffocws iddynt, ac sydd wedi'u trefnu'n dda. Yn ogystal â dwyn byrddau i gyfrif, mae'r cyfarfodydd adolygu yn cynnig cymorth ac anogaeth, ac yn cynnig cyfleoedd i drafod materion cenedlaethol a gwaith ar draws y bwrdd. Mae dangosfyrddau perfformiad cynhwysfawr yn ategu'r cyfarfodydd adolygu perfformiad.

- 47 Ar lefel Bwrdd, mae'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni newydd yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd ar berfformiad a'r gweithlu. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a gaiff y pwyllgor yn llai manwl na'r hyn a gaiff y Bwrdd, sy'n canolbwyntio ar dargedau â blaenoriaeth neu feysydd perfformiad sydd wedi dirywio. Dylid rhoi mwy o wybodaeth i'r pwyllgor er mwyn ategu ei swyddogaeth graffu a'i wneud yn fwy effeithiol o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.

Ffactorau eraill sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

- 48 Wrth adolygu trefniadau'r Bwrdd lechyd i gefnogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, gwelsom fod **y gweithlu ac ystadau yn cefnogi nodau'r Bwrdd lechyd yn gynyddol, ond bod gwybodeg yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny**

Rheoli'r gweithlu

- 49 **Mae dulliau recriwtio, cadw a chefnogi rheoli'r gweithlu yn effeithiol ar y cyfan, ac er bod rhai agweddau ar hyfforddi a datblygu yn peri heriau, mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw.**
- 50 Mae gan y Bwrdd lechyd fframwaith ar gyfer y gweithlu a datblygu sefydliadol sy'n ategu ei gynllun gweithredu blynyddol. Adroddir ar hynt y fframwaith i'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni newydd, er nad yw'r proses graffu yn effeithiol eto. Fodd bynnag, creffir ar y gweithlu ar lefel weithredol drwy'r cyfarfodydd adolygu perfformiad.
- 51 Yn ystod y flwyddyn, profodd y Bwrdd lechyd nifer o lwyddiannau recriwtio, er ei bod yn dal i fod yn anodd recriwtio rhai grwpiau proffesiynol ac arbenigeddau. Er hyn, mae costau asiantaeth yn isel. Cyflwynodd y Bwrdd lechyd nifer o fentrau llwyddiannus i gefnogi cynhyrchiant y gweithlu ac mae'r rhain bellach yn talu ar eu canfed. Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch hefyd yn gostwng.
- 52 Fodd bynnag, mae trosiant staff yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac mae'r cyfnod o amser i recriwtio hefyd uwchlaw'r cyfartaledd. Hefyd, mae angen i gydymffurfiaeth ag arfarniadau hyfforddiant a pherfformiad gorfodol wella, gyda chyfraddau arfarnu meddygol ac anfeddygol islaw'r targed o 85%. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella mynediad i hyfforddiant ac, ers penodi Cyfarwyddwr newydd y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, bu mwy o ffocws ar hyfforddiant ac arfarniadau mewn adolygiadau rheoli perfformiad. Dylai'r camau hyn helpu i wella perfformiad dros y chwe mis nesaf.

Rheoli ystadau

- 53 **Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu cynlluniau strategol er mwyn sicrhau bod ei ystad yn addas at y dyfodol gan ymateb hefyd i broblemau presennol sy'n ymwneud â dirywiad rhannau o'r ystad bresennol.**

- 54 Mae'r Bwrdd lechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ystadau. Rhoddodd adolygiad archwilio mewnol diweddar o'r ffordd mae'n rheoli cydymffurfiaeth â gofynion statudol 'sicrwydd rhesymol'.
- 55 Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn lleihau'n raddol, er bod y lefel o risgiau sylweddol sydd gan y Bwrdd lechyd yn parhau'n uchel, gyda'r rhan fwyaf o'r risg yn gysylltiedig â phrif safle Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau i ddatblygu cyfres o gynlluniau rheoli ystadau sy'n nodi sut mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu defnyddio ei ystad dros y 10 mlynedd nesaf.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg

- 56 **Mae'r Bwrdd lechyd yn wynebu nifer o heriau o ran ei drefniadau ar gyfer defnyddio technoleg gwybodaeth, defnyddio systemau TG cenedlaethol a chael gafael ar yr adnoddau priodol i gyflawni'r rhaglen amlinellol strategol ar gyfer gwybodeg.**
- 57 Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu ei raglen amlinellol strategol ar gyfer gwybodeg ar gyfer 2016-2021 er nad oedd cyllid cyfalaf na refeniw Llywodraeth Cymru yn ddigon i gwmpasu bwriadau'r rhaglen honno. O ganlyniad, datblygwyd cynllun blynyddol a amlinellodd y blaenoriaethau ar gyfer gwybodeg am y flwyddyn.
- 58 Mae gan y Bwrdd lechyd seilwaith TG sy'n heneiddio o hyd ac mae angen iddo ddisodli systemau TG etifeddol. Mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn gwneud buddsoddiadau â blaenoriaeth o dan ei raglen gyfalaf 'cadw'r goleuadau ynghynn', er bod y cyllid cyfalaf hwnnw yn gyfyngedig. Caiff systemau TG eu cynnal a'u cadw wrth aros i'r rhaglen TG genedlaethol gael ei chyflwyno, er ei bod yn debygol y bydd rhai systemau wedi 'darfod' o ran eu hoes weithredol erbyn i'r systemau TG cenedlaethol gael eu cyflwyno.
- 59 Mae'r lefel isel o fuddsoddiad mewn seilwaith TG ac adnoddau gwybodeg yn cynyddu'r risg o fygythiadau posibl sy'n gysylltiedig ag ymosodiadau seiber. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd lechyd swyddog diogelwch TG dynodedig.
- 60 Gall y Bwrdd lechyd atgyfnerthu ymhellach y Dangosyddion Perfformiad TG Allweddol a fesurir ac yr adroddir arnynt. Mae'r Bwrdd lechyd yn mesur Dangosyddion Perfformiad TG Allweddol ond mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad y ddesg wasanaeth TG a datrys galwadau.

Argymhellion

- 61 Nodir yr argymhellion sy'n deillio o asesiad strwythuredig 2017 yn [Arddangosyn 1](#). Bydd hefyd angen i'r Bwrdd lechyd barhau i ganolbwyntio ar weithredu ar unrhyw argymhellion blaenorol nas cwblhawyd eto.
- 62 Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd lechyd yn nodi sut mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn ei gynnwys yn [Atodiad 1](#) unwaith y bydd wedi'i gwblhau ac wedi'i ystyried gan bwyllgor perthnasol y Bwrdd.

Arddangosyn 1: Argymhellion 2017

Argymhellion 2017	
Arbedion ariannol	
A1	Ar gyfer 2018-19, mae angen i'r Bwrdd lechyd ddefnyddio gwybodaeth fel data meincnodi er mwyn nodi targedau ymestyn fesul achos mewn meysydd lle gellid gwneud mwy o arbedion.
Cynllunio strategol	
A2	Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â fframwaith cynllunio'r GIG, mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu yn craffu'n rheolaidd ar gyflawni'r cynllun gweithredu blynyddol, a chynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd dilynol.
Effeithiolrwydd pwyllgorau	
A3	Er mwyn galluogi proses graffu effeithiol, mae angen i'r Bwrdd lechyd wella ansawdd ei bapurau i'r Bwrdd a Phwyllgorau drwy sicrhau bod hyd a chynnwys y papurau a gyflwynir yn briodol ac yn hwylus.
A4	Er mwyn gwella tryloywder, mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod papurau'r Pwyllgor Cyllid ar gael ar ei wefan yn amserol.
Rheoli risg	
A5	Mae angen i'r Bwrdd lechyd atgyfnerthu ei fframwaith sicrwydd risg gorfforaethol drwy: <ul style="list-style-type: none">• fapio risgiau yn ôl amcanion strategol y Bwrdd lechyd;• adolygu'r sicrwydd gofynnol;• gwella eglurder disgrifyddion risg; ac• egluro wrth y darllenydd pryd y caiff risgiau eu diweddarau a/neu eu hychwanegu.
Llywodraethu Gwybodaeth	
A6	Mae angen i'r Bwrdd lechyd ganolbwyntio ar atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth yn barod am y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a ddaw i rym ym mis Mai 2018. Dylai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• diweddarau'r strategaeth llywodraethu gwybodaeth;• rhoi trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â phechyn cymorth llywodraethu gwybodaeth gofal sylfaenol;• datblygu a chwblhau Cofrestr Asedau Gwybodaeth;• sicrhau bod swyddog diogelu data dynodedig wedi'i benodi; a• gwella cyfraddau hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth.

Argymhellion 2017

Rheoli perfformiad

- A7 Mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y lefel o wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni am ei berfformiad yn ddigonol i alluogi'r Pwyllgor i graffu'n effeithiol. Dylai hyn gynnwys:
- sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth fanylach am berfformiad na'r hyn a gaiff y Bwrdd. Dylid ystyried cynnwys crynodeb o ddangosfyrddau'r Bwrdd Clinigol a Gwasanaeth a ddefnyddir yn yr adolygiadau rheoli perfformiad gweithredol misol;
 - ehangu'r amrywiaeth o fetrigau perfformiad i gynnwys ystod ehangach o ddangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â'r gweithlu. Dylid ystyried ailedrych ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol blaenorol ar gyfer y gweithlu a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad blaenorol.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg

- A8 Mae angen i'r Bwrdd lechyd ailedrych ar ei Gynllun Amlinellol Strategol ar gyfer Gwybodeg yn sgil yr adnoddau ariannol sydd ar gael a cheisio cymeradwyaeth y Bwrdd o ran y dull gweithredu strategol diwygiedig.
- A9 Er mwyn sicrhau gwydnwch wrth wynebu problemau diogelwch, fel seiberymosodiadau, dylai'r Bwrdd lechyd ystyried nodi adnodd penodol ar gyfer rheoli diogelwch TG.
- A10 Er mwyn sicrhau y creffir ar wasanaeth gwybodeg y Bwrdd lechyd, dylai'r Bwrdd lechyd ehangu'r amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â gwybodeg i gynnwys achos ac effaith digwyddiadau gwybodeg.

Adroddiad manwl

Mae dulliau o arbed yn helpu i leihau'r diffyg ariannol cynyddol, ond tra bod trefniadau gweithredol yn gadarn ar y cyfan, mae gwendidau mewn trefniadau llywodraethu ac nid yw gwybodeg yn cefnogi gwasanaethau'n effeithiol eto

63 Nodir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn isod.

Erbyn hyn mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi'r broses o gynllunio a monitro arbedion, ond mae'n wynebu diffyg cynyddol am y cyfnod o dair blynedd yn gorffen ym mis Mawrth 2018

64 Yn ogystal â rhoi sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, mae ein gwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig yn 2017 wedi ystyried y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rydym wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Roedd archwiliad manwl o gynlluniau arbedion unigol y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y dull gweithredu ym maes rheoli meddyginiaethau ac mae hyn wedi llywio ein barn gyffredinol ar effeithiolrwydd y sefydliad o ran cynllunio a chyflawni arbedion. Rydym hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr asesiad strwythuredig blaenorol ynghylch rheoli ariannol. Nodir ein canfyddiadau isod.

Caiff arbedion ar gyfer 2017-18 eu rheoli'n dda, ond mae tangyflawni hanesyddol yn erbyn targedau arbedion a gorwariant diweddar yn erbyn terfynau adnoddau yn golygu y rhagwelir y bydd gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg cronol cynyddol o £61 miliwn erbyn mis Mawrth 2018


65 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu refeniw i'r Bwrdd Iechyd er mwyn darparu'r adnoddau i'r Bwrdd Iechyd dalu am wasanaethau gofal iechyd a ddarperir yn lleol ac a ddarperir drwy gcontract ar gyfer ei boblogaeth breswyl. Cyfeirir at y dyraniad hwn fel y Terfyn Adnoddau Refeniw. Bob blwyddyn, ceir cynnydd yn y Terfyn Adnoddau Refeniw a ddyrennir ar ddechrau'r flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd hwn mewn refeniw yn helpu i ymdrin â chostau chwyddiannol gofal iechyd, sy'n cynnwys twf mewn costau cyflogau, costau meddyginiaethau, a'r galw cynyddol am wasanaethau. Yn ogystal, caiff y Bwrdd Iechyd incwm ychwanegol drwy'r trefniadau comisiynu i ddarparu gwasanaethau trydyddol ar gyfer poblogaeth ehangach y de.

66 Fel rhan o ofynion Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf), rhaid i'r Bwrdd Iechyd wario o fewn ei ddyraniadau ariannol dros gyfnod ariannol treigl o dair blynedd. Y cyfnod a ddaeth i ben yn 2016-17 oedd y flwyddyn gyntaf y cafodd byrddau iechyd eu hasesu yn erbyn y rhwymedigaeth hon. Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd y ddyletswydd hon am ei fod wedi gwario £50.5 miliwn yn fwy na'r £2.5 biliwn yr awdurdodwyd iddo ei wario yn ystod y cyfnod tair blynedd yn gorffen 2016-17. Yn 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod rheoli pwysau costau newydd yn ogystal â cheisio lleihau'r diffyg cronodig o £50.5 miliwn. O ganlyniad i sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo cynllun tymor canolig integredig tair blynedd y Bwrdd Iechyd. Ar gyfer 2017-18, mae'r

Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio yn ôl cynllun gweithredu blynyddol, wedi'i ardystio gan y Bwrdd ond heb ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

- 67 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targedau blynyddol uchelgeisiol ar gyfer sicrhau arbedion, ond, dros y blynyddoedd, mae'r targed wedi gostwng yn raddol. Dengys **Arddangosyn 2** lefelau'r arbedion a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol (mis 1) a'r arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n amlwg, rhwng 2012-13 a 2015-16, fod y Bwrdd Iechyd yn cynllunio arbedion ar ddechrau'r flwyddyn na ellid eu cyflawni. Fodd bynnag, yn 2016-17, gosododd y Bwrdd Iechyd darged blynyddol i arbed £26 miliwn ond, ar ddechrau'r flwyddyn, dim ond hanner y swm gofynnol (£13.2 miliwn) a nodwyd. Nodwyd y £26 miliwn llawn erbyn mis 12 ond ar ddiwedd y flwyddyn methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni ei darged o drwch blewyn, sef £2.9 miliwn.

Arddangosyn 2: arbedion a gynlluniwyd ym mis 1 ac a gyflawnwyd ym mis 12 rhwng 2012-13 a 2016-17



Ffynhonnell: Yr arbedion a gofnodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru

- 68 Ar ddechrau pob blwyddyn, mae'r tîm cyllid corfforaethol yn dirprwyo targed arbedion i bob bwrdd clinigol a gwasanaeth² a'r tîm gweithredol. Yn 2016-17, y targed oedd 3% o'i gyllideb flynyddol, a tharged arbedion cyffredinol y Bwrdd Iechyd oedd £26 miliwn. Fel y nodir uchod, ni lwyddodd y Bwrdd

²Mae gan y Bwrdd Iechyd naw maes bwrdd clinigol a gwasanaeth. Mae ganddo wyth bwrdd clinigol – Gofal Sylfaenol Cymunedol a Chanolraddol, Iechyd Meddwl, Diagnosteg a Therapiau Clinigol, Deintyddol, Llawfeddygaeth, Llawfeddygaeth Arbenigol, Plant a Menywod a Meddygaeth. Mae ganddo un maes bwrdd gwasanaeth – Ystadau a Chyfleusterau Cyfalaf.

lechyd i gyflawni ei darged arbedion cyffredinol, 11% yn brin, y gellir ei briodoli i fethu nifer o dargedau dirprwyedig. Dengys **Arddangosyn 3**, o'r deg targed dirprwyedig, mai dim ond dau a gyflawnwyd. Gwnaeth bwrdd clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol a bwrdd clinigol Gwasanaethau Arbenigol ill dau ragori ar eu priod dargedau. Tangyflawnodd gweddill y byrddau clinigol a gwasanaeth rhwng 4% (bwrdd clinigol Diagnosteg a Therapiau Clinigol) a 62% (bwrdd clinigol Meddygaeth). Fodd bynnag, yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio tuag at atgyfnerthu rheolaeth gyllidebol, ac atebolrwydd. Hefyd, yn ddiweddar, mae wedi gwella gweithdrefnau uwchgyfeirio perfformiad ariannol.


Arddangosyn 3: perfformiad byrddau clinigol a gwasanaeth yn erbyn targedau arbedion yn 2016-17

Bwrdd Clinigol/Gwasanaeth	Targed yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2016-17 (3%) £m	Arbedion a gyflawnwyd erbyn mis 12 £m	Gwahaniaeth rhwng y targed a'r hyn a gyflawnwyd £m	% a gyflawnwyd
Gofal Sylfaenol Cymunedol a Chanolraddol	5.031	6.036	1.005	120
Iechyd Meddwl	2.277	2.012	-265	88
Diagnosteg a Therapiau Clinigol	2.917	2.814	-103	96
Deintyddol	727	672	-55	92
Llawfeddygaeth	3.984	2.269	-1.715	57
Ystadau a Chyfleusterau Cyfalaf	1.594	910	-684	57
Plant a Menywod	3.351	1.605	-1.746	48
Meddygaeth	3.519	1.336	-2.183	38
Gwasanaethau Arbenigol	3.826	4.176	350	109
Tîm Gweithredol Corfforaethol	1.517	1.254	-263	83
Dyraniadau canolog	-2.743		2.743	
Cyfansymiau	26.000	23.084	2.916	89

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

69 Wrth lunio cynlluniau arbedion, mae'n bwysig ystyried y cydbwysedd rhwng cynlluniau arbedion cylchol ac anghylchol ac effaith y cynlluniau hynny. Dylai mwy o ffocws ar gynlluniau cylchol olygu y bydd llai o bwysau ar y gyllideb yn ystod y blynyddoedd dilynol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae lefelau'r arbedion cylchol a gyflawnwyd yn y Bwrdd Iechyd wedi gostwng. Dengys **Arddangosyn 4** fod y rhan fwyaf o arbedion yn 2014-15 a 2015-16 yn rhai cylchol (86% a 77% yn y drefn honno) ond yn 2016-17 roedd y gyfran wedi gostwng i ddim ond 50%. Awgryma hyn fod y Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n gynyddol anodd dod o hyd i arbedion cylchol. Mae cyfran uchel o arbedion anghylchol yn anghynladwy, gan fod angen i wasanaethau nodi cyfleoedd i wneud arbedion bob blwyddyn.

Arddangosyn 4: cyfran yr arbedion cylchol ac anghylchol a gyflawnwyd rhwng 2014-15 a 2016-17




Ffynhonnell: Yr arbedion a gofnodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru

70 O'u dadansoddi yn ôl categori³, dengys Arddangosyn 5 y gellid priodoli'r rhan fwyaf o arbedion yn 2016-17 i gynlluniau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau (cyfanswm o £8.2 miliwn) a rheoli meddyginiaethau (cyfanswm o £5.3 miliwn). Roedd y cynlluniau hyn yn cyfrif am dros hanner yr holl arbedion. Ar draws pob categori, roedd y rhaniad rhwng arbedion cylchol ac anghylchol yn gyfartal.

³ Categoriâu fel y'u defnyddir mewn ffurflenni cyllid misol i Lywodraeth Cymru.

Arddangosyn 5: arbedion cylchol ac anghylchol a gyflawnwyd yn 2016-17



Ffynhonnell: Yr arbedion a gofnodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru

71 Ar gyfer 2017-18, mae gan y Bwrdd Iechyd darged arbedion o £35 miliwn, sy'n cynnwys £17.3 miliwn o arbedion datganoledig, y mae 75% ohonynt yn gylchol. Os cânt eu cyflawni, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £30.9 miliwn yn ystod y flwyddyn. Ym mis chwech, mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni ei darged arbedion a'r diffyg arfaethedig yn ystod y flwyddyn. Ym mis chwech, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi arbedion o £30.7 miliwn. Mae'r bwlch o £4.3 miliwn sy'n weddill wedi'i broffilio ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, hyd yn oed os cyflawnir y diffyg arfaethedig yn ystod y flwyddyn, dros gylch o dair blynedd rhagwelir y bydd diffyg treigl y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod yn dod i ben 2017-18 yn £61 miliwn, ar y gorau. Mae hyn o leiaf £10 miliwn yn waeth na'r diffyg tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2017, felly, er bod arbedion yn cael eu cyflawni, nid ydynt yn cefnogi lleihad yn y diffyg cronus cyffredinol.

Mae'r broses o gynllunio arbedion yn gyson â chylch cynllunio tair blynedd y Bwrdd Iechyd, a chaiff y gwaith o'u cyflawni ei ategu gan wasanaethau corfforaethol. Fodd bynnag, mae lle i ailystyried y ffordd y caiff targedau eu dyrannu er mwyn manteisio ar feysydd lle mae cyfle i wneud mwy o arbedion

72 Mae'n rhaid i'r holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru nodi arbedion er mwyn gallu anelu at wario o fewn eu dyraniad refeniw. I lawer o gyrff, mae pwysau cost cynyddol yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd pennu cyllideb gytbwys, hyd yn oed gyda chynnydd blynyddol yn y cyllid a ddyrennir. Mae dulliau traddodiadol o gyflawni arbedion ledled Cymru wedi canolbwyntio ar fesurau

rheoli costau, arbedion caffael, rhewi ymgyrchoedd recriwtio a newidiadau o ran cymysgedd sgiliau neu gymysgedd graddau staff, ymhlith eraill. Unwaith y rhoddir y dulliau gweithredu hyn ar waith, bydd yn ofynnol i gyrrff iechyd feddwl yn wahanol, gan na fydd mesurau cwtogi costau mor effeithiol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried y trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion. Nid ydym wedi adolygu cynllun, atebolrwydd, risgiau na pherfformiad cynlluniau arbedion unigol.

Mae'r dull o gynllunio arbedion yn realistig ac wedi'i gysylltu â chylch cynllunio'r cynllun tymor canolig integredig, er bod lle i adolygu dyraniad targedau er mwyn manteisio ar feysydd lle mae cyfle i wneud mwy o arbedion.

- 73 Yn 2016-17, bu'n ofynnol i fyrddau clinigol a gwasanaeth a'r tîm gweithredol arbed 3% o'u cyllideb flynyddol. Targed datganoledig 2017-18 yw 2%. Er bod hyn yn gyfystyr â gostwng y targed, mae'n fwy penodol am ei fod yn cynnwys 1.5% o arbedion cylchol a 0.5% o arbedion anghylchol.
- 74 Mewn termau ariannol, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd arbed £35 miliwn yn 2017-18, a ddadansoddir fel a ganlyn:
- targed datganoledig o £17.3 miliwn (£13.0 miliwn yn gylchol a £4.3 miliwn yn anghylchol);
 - £2.7 miliwn ar gyfer trawsnewid ar draws y Bwrdd Iechyd; a
 - targed ymestyn o £15 miliwn.
- 75 Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i gynllunio arbedion o'r brig i'r bôn, gan olygu bod y tîm cyllid corfforaethol yn gosod targed ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan, sydd yr un mor gymwys i'r byrddau clinigol a gwasanaeth a'r tîm gweithredol. Mae meysydd gwasanaeth yn gyfrifol am gynllunio a chyflawni eu cynlluniau gwella costau, a nodi arbedion mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, mae byrddau clinigol yn nodi arbedion rheoli meddyginiaethau⁴ drwy feincnodi, chwilio am gyffuriau amgen rhatach (biodebyg), defnyddio cyffuriau nad oes ganddynt batent, lleihau gwastraff ac amrywiad, a throsglwyddo gwasanaethau i'r man cyflenwi mwyaf costeffeithiol.
- 76 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi newid y ffordd y mae'n cynllunio arbedion yn sylweddol ers diwedd 2016-17 pan gyflwynodd y Bwrdd Iechyd 'turning the curve'. Cyflwynwyd y rhaglen hon er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ariannol y Bwrdd Iechyd. Rhoddodd lwyfan i bob uwch arweinydd gyfarfod, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad a syniadau, ac i'r tîm gweithredu raeadru negeseuon. Cyflawnodd y rhaglen arbedion tua diwedd 2016-17. Tra bod fformat 'turning the curve' yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu, fel gwneud y Pwyllgor Cyllid dros dro yn barhaol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi parhau i wella'r maes rheoli ariannol drwy effeithlonrwydd cyllidebol, a mesurau rheolaeth ariannol, er mwyn rheoli cyllidebau a lleihau cynnydd cyffredinol mewn costau. Mae hyn yn cynnwys datblygu traciwr Rhaglen Gwella Costau.
- 77 Mae'r traciwr hwn yn adnodd cynllunio a monitro a ddefnyddir i sicrhau bod cynlluniau arbedion yn cael eu datblygu. Mae'r traciwr yn seiliedig ar system goleuadau traffig. Mae cynlluniau gwyrdd wedi'u datblygu'n llawn ac maent yn barod i'w gweithredu, mae cynlluniau melyn bron yn barod i'w gweithredu ac mae cynlluniau coch yn syniadau posibl at y dyfodol. Yn wahanol i gynlluniau gwyrdd a melyn, ni chaiff meysydd gwasanaeth eu monitro o ran hynt cynlluniau coch; ond disgwylir i fyrddau

⁴ Mae'r gwaith o reoli meddyginiaethau yn y Bwrdd Iechyd wedi'i ddatganoli i fyrddau clinigol.

clinigol a gwasanaeth ychwanegu syniadau'n barhaus. Er mwyn sicrhau bod cynlluniau arbedion ar waith i'w cyflawni yn 2017-18, cafodd y targedau isod eu gosod a'u cyflawni:

- 1 Ebrill – 65% cynlluniau gwyrdd, 25% cynlluniau melyn, 10% cynlluniau heb eu nodi ar waith;
- 1 Mehefin – 80% cynlluniau gwyrdd, 15% cynlluniau melyn, 5% cynlluniau heb eu nodi ar waith;
a
- 1 Hydref – 100% cynlluniau gwyrdd ar waith.

- 78 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses arbedion treigl ar waith, mae gan bob cynllun ddyddiad dechrau fel bod gan fyrddau clinigol a gwasanaeth y rhyddid i ychwanegu cynlluniau newydd at eu cynlluniau gwella costau unrhyw adeg o'r flwyddyn a'u proffilio fel sy'n briodol i'r cynllun. Fodd bynnag, rhaid iddynt nodi proffil arbedion cylchol ac anghylchol yn ystod y flwyddyn gyfan. Mewn blynyddoedd blaenorol, cafodd arbedion bwrdd clinigol nas cyflawnwyd (yn ddigonol) eu dileu'n gorfforaethol, nad oedd yn gymhellant i gyflawni'r targed. Fodd bynnag, gan ddechrau eleni, bydd byrddau clinigol a gwasanaeth yn cario eu diffyg ymlaen fel bod mwy o atebolrwydd a bydd byrddau clinigol yn gyfrifol am eu risg eu hunain.
- 79 Mae cynlluniau arbedion yn gyson â chylch cynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. Mae pob bwrdd clinigol a gwasanaeth yn datblygu cynllun tymor canolig integredig sy'n bwydo i mewn i gynllun cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd yn ofynnol i feysydd gwasanaeth ddatblygu cynlluniau arbedion manwl ar gyfer blwyddyn un ond penawdau'n unig oedd proffiliau arbedion ar gyfer blynyddoedd dau a thri. Fodd bynnag, o'r flwyddyn hon, er mwyn cael byrddau clinigol a gwasanaeth i ddatblygu meddylfryd gwneud a chynllunio arbedion cylchol a thymor hwy y tu hwnt i ffocws yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd templed cynllunio tair blynedd. Hon yw'r flwyddyn gyntaf y bydd y tîm gweithredol hefyd yn mynd drwy'r un broses, gan hyrwyddo ffocws mwy cynaliadwy a thymor hwy i gynllunio arbedion.
- 80 Er mwyn helpu i gynllunio cynlluniau arbedion, sy'n gyson â chynlluniau tymor canolig integredig, a deall eu heffaith, rhaid cwblhau dogfen brosiect amlinellol ar gyfer pob cynllun. Mae templed y ddogfen brosiect amlinellol, y mae'n rhaid iddi gael ei chymeradwyo ar lefel bwrdd clinigol, yn gofyn am y mathau canlynol o wybodaeth:
- diben y newid, sut mae'n cyfrannu at gynlluniau byrddau clinigol a strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd, a thargedau canlynol;
 - meysydd sydd o fewn y cwmpas a'r tu allan iddo, camau allweddol i'w cyflawni a rhyngddibyniaethau, er enghraifft, effaith ar fyrddau clinigol eraill, byrddau iechyd eraill a phartneriaid allanol;
 - risgiau a chymau lliniaru;
 - sut y bydd rhanddeiliaid allweddol ynghlwm wrth ddylunio'r newid i'r gwasanaeth, a'r effaith ar gydraddoldeb ac iechyd;
 - carreg filltir allweddol, newid yn y gweithlu, newid ariannol a chanlyniadau cyflawni dros y tair blynedd nesaf, wedi'u dadansoddi fesul chwarter;
 - amlinelliad o dîm y brosiect; a
 - chymeradwyo'r ddogfen.
- 81 Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i gynllunio arbedion ar sail dosbarthiad cyfartal ac mae perfformiad cyfredol y Rhaglen Gwella Costau yn awgrymu bod modd cyflawni'r targedau arbedion, gyda rhai

meysydd yn rhagori ar dargedau. Fodd bynnag, o ystyried sefyllfa ariannol negyddol y Bwrdd lechyd, mae lle i archwilio dull o nodi targedau arbedion sydd wedi'i deilwra'n fwy, gyda meysydd gwasanaeth sydd â mwy o gyfle i wneud arbedion yn cael targedau uwch na'r rhai sydd â llai o gyfle. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'i arbedion yn ymwneud â chostau nad ydynt yn gyflogau ac y bydd angen iddo fynd i'r afael â chostau cyflogau er mwyn arbed mwy. Mewn ymateb, mae'r Bwrdd lechyd yn archwilio ei restrau staff, gan ymdrechu i leihau costau asiantaeth drwy benodi unigolion i swyddi parhaol a chraffu ar swyddi gwag nad ydynt yn rhai clinigol drwy'r adnodd craffu ar swyddi gwag corfforaethol.

- 82 Yn 2016, gwnaed yr argymhellion canlynol gennym mewn perthynas â chynllunio ariannol. Mae **Arddangosyn 6** yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 6: cynnydd ar argymhellion cynllunio ariannol 2016

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
A2 Sicrhau bod cynlluniau i leihau costau wedi'u cefnogi'n ddigonol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.	<p>Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto</p> <p>Mae Dogfen Brosiect Amlinellol y Bwrdd lechyd, y mae'n rhaid iddi gael ei chymeradwyo ar lefel bwrdd clinigol, ynghyd â monitro wythnosol y traciwr gwella costau, yn sicrhau bod cynlluniau arbedion yn cael eu cefnogi cyn eu gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd lechyd eto mewn sefyllfa i nodi arbedion mor bell â phosibl cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.</p>

Mae gwasanaethau corfforaethol yn helpu i gyflawni arbedion ac mae'r Bwrdd lechyd yn atgyfnerthu trefniadau i gefnogi prosiectau trawsnewid

- 83 Mae gan y Bwrdd lechyd nifer o rwydweithiau cymorth er mwyn helpu byrddau clinigol a gwasanaeth i gynllunio a chyflawni arbedion. Mae swyddogaethau galluogi, fel cyllid a'r gweithlu, yn rhan o bob bwrdd clinigol a gwasanaeth ac maent yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r cynllun tymor canolig integredig a chynlluniau arbedion. Bydd penaeithiad cyllid yn cefnogi priod gyfarwyddwyr gweithrediadau a deiliaid cyllidebau wrth helpu i ddatblygu cynlluniau arbedion yn unol â chyfeiriad strategol y bwrdd clinigol. Nododd y rhai y gwnaethom gyfweld â nhw fel rhan o'n traciwr rheoli meddyginiaethau fod fferyllwyr byrddau clinigol a chynghorwyr rhagnodi yn gweithio'n agos gyda phenaethiaid cyllid. Yn ogystal â'r galluogwyr integredig, mae gan y bwrdd lechyd swyddogaethau cymorth eraill fel y tîm gwybodeg sy'n cefnogi cynlluniau arbedion drwy driongli meincnodi a data mewmol er mwyn nodi cyfleoedd i arbed.
- 84 Fodd bynnag, mae'r Bwrdd lechyd wedi sylweddoli y gall ei strwythur sefydliadol hyrwyddo gweithio seilo. Fel y cyfryw, mae'n ystyried y ffordd orau o annog trawsweithio mewn sefyllfa oedd lle mae gwaith un bwrdd clinigol yn effeithio ar un arall. Mae hefyd yn ystyried y ffordd orau o ysgogi gorgyflawni; er enghraifft drwy ddychwelyd rhai o'r arbedion yn ôl i mewn i'r gwasanaeth er mwyn

cefnogi ailfuddsoddi. Fodd bynnag, mae trafodaethau ynghylch cymhellion hefyd yn codi cwestiynau am gosbau am dangyflawni arbedion, nad yw'r Bwrdd lechyd wedi'u hystyried eto.

85 Mae gan y Bwrdd lechyd bum thema drawsbynciol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau arbedion datganoledig, sef:

- rheoli meddyginiaethau;
- caffael;
- cynhyrchiant meddygol;
- cynhyrchiant nyrsio; a
- chynhyrchiant y gweithlu.

86 Mae'r themâu trawsbynciol yn ffrydiau gwaith a arweinir gan y tîm gweithredol sy'n rhychwantu'r Bwrdd lechyd. Y fantais yw ei bod yn rhoi cyfleoedd i'r Bwrdd lechyd sicrhau arbedion maint a chynllunio arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ehangach, mwy cynaliadwy. Mae cynlluniau trawsbynciol yn rhan o gynlluniau gwella costau byrddau clinigol ac, fel y cyfryw, maent yn berchen ar yr arbedion ac yn eu cyflawni. Fodd bynnag, yr arweinwyr gweithredol sy'n bennaf cyfrifol am y targed, sef £7.5 miliwn ar draws yr holl ffrydiau gwaith. Mae'r swyddfa rheoli rhaglenni yn cefnogi'r rhaglen drawsbynciol, ac mae'r tîm cyllid corfforaethol yn chwarae rhan wrth nodi cyfleoedd trawsbynciol a helpu'r byrddau clinigol i gyflawni. Caiff cynnydd cyffredinol ei fonitro drwy'r Grŵp Llywio Trawsbynciol, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyllid. Mae'r trafodaethau yr arsylwyd arnynt yng Ngrŵp Llywio Trawsbynciol mis Hydref yn awgrymu bod yr holl ffrydiau gwaith, ar wahân i gynhyrchiant y gweithlu, yn cyflawni.

87 Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod mai'r unig ffordd o wneud arbedion cynaliadwy tymor hwy a lleihau'r bwlbch o ran diffyg yw drwy drawsnewid gwasanaethau. Fel y cyfryw, yn ddiweddar mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu Bwrdd Trawsnewid, sy'n cyfarfod bob mis, ac a gadeirir gan Gyfarwyddwr lechyd y Cyhoedd (a'r prif weithredwr dros dro tan fis Gorffennaf 2017). O dan y Bwrdd Trawsnewid, ceir tri thîm trawsnewid, y mae pob un ohonynt yn gyfrifol am un o'r ffrydiau gwaith canlynol:

- gofal heb ei drefnu;
- gofal wedi'i gynllunio; a
- gofal sylfaenol.

88 Caiff y timau trawsnewid, sy'n dal i fod ar gamau cynnar, eu harwain yn glinigol. Mae cyllid, y gweithlu, swyddfa rheoli'r rhaglen, y tîm Gwella Gwasanaethau yn Barhaus, a'r tîm gwybodeg hefyd yn eu cefnogi. Fel y nodwyd yn gynharach, ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd lechyd wedi gosod targed o £2.6 miliwn o arbedion drwy brosiectau trawsnewid.

Gweithredir trefniadau craffu a monitro cryf ar gyfer arbedion ariannol ar lefel y Bwrdd, lefel pwyllgorau a lefel weithredol, ac mae dulliau da o ddysgu gwersi ar waith

89 Mae gwaith monitro a chraffu cadarn a rheolaidd ar gynlluniau arbedion a'r ffordd y cânt eu cyflawni wedyn yn sicrhau y caiff llithriant, risgiau a phroblemau eu nodi'n gynnar fel y gellir cymryd camau lliniaru. Mae angen i'r Bwrdd a'r tîm gweithredol gael sicrwydd bod arbedion yn cael eu cyflawni'n gyflym a bod y Bwrdd lechyd yn cyflawni ei dargedau.

- 90 Yn y Bwrdd Iechyd caiff arbedion eu cofnodi ar bob lefel yn y sefydliad:
- Lefel Bwrdd – y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid;
 - Lefel Gorfforaethol – cyfarfodydd adolygu perfformiad gweithredol Bwrdd Clinigol a Gwasanaeth, Bwrdd Trawsnewid a'r Grŵp Llywio Trawsbynciol; a
 - Lefel Weithredol – cyfarfodydd Bwrdd Clinigol a Gwasanaeth.
- 91 Sefydlodd y Bwrdd Iechyd Bwyllgor Cyllid dros dro ar ddiwedd 2016-17. Mae'r pwyllgor bellach yn barhaol ac yn cyfarfod bob mis. Caiff y pwyllgor adroddiad cyllid misol cyffredinol, sy'n rhoi sefyllfa lefel uchel yn erbyn y targed arbedion, gyda chrynodeb wythnosol diweddaraf traciwr y Rhaglen Gwella Costau wedi'i atodi. Mae'r pwyllgor hefyd yn cael adroddiad penodol ar y rhaglen lleihau costau. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar gynnydd yn erbyn y rhaglen lleihau costau ddatganoledig, sy'n cynnwys themâu trawsbynciol a chynnydd byrddau clinigol a gwasanaeth. Mae'r Bwrdd, sy'n cyfarfod bob deufis, yn cael y fersiwn ddiweddaraf o'r adroddiad cyllid misol. Gwnaethom arsylwi ar y Pwyllgor Cyllid ym mis Medi a mis Hydref 2017. Yn gyffredinol, nodwyd bod perfformiad o ran arbedion yn ystod y flwyddyn yn destun proses graffu dda ac yr adroddir arno.
- 92 Fel rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd gwblhau arolwg hunanasesu. Un o'r cwestiynau a ofynnwyd oedd y graddau y cytunodd y Bwrdd Iechyd â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â chraffu ar arbedion. Mae **Arddangosyn 7** yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd ac mae'n amlwg bod y Bwrdd Iechyd yn hyderus ynglŷn â lefel a chadernid y gwaith craffu a wneir a llinellau atebolrwydd.

Arddangosyn 7: Ymateb y Bwrdd Iechyd i gyfres o ddatganiadau ynghylch gwaith craffu a herio yn ystod y flwyddyn ar gynnydd cynlluniau arbedion.

Datganiadau ynghylch craffu ar gynlluniau arbedion	Ymateb y Bwrdd Iechyd
Mae'r gwaith craffu a herio gan y Bwrdd a'i bwyllgor dirprwyedig ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i gyflawni arbedion yn gadarn.	Cytuno'n gryf
Mae'r gwaith craffu yn amserol, gan roi digon o amser i gymryd camau adferol.	Cytuno'n gryf
Caiff yr effeithiau ar ansawdd gwasanaethau eu hystyried gan y rhai sy'n craffu ar gyflawni cynlluniau arbedion.	Cytuno'n gryf
Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni cynlluniau arbedion.	Cytuno'n gryf

Ffynhonnell: Ffurflen y Bwrdd Iechyd ar gyfer hunanasesiad modiwl arbedion ariannol Swyddfa Archwilio Cymru

- 93 Caiff rhaglenni gwella costau byrddau clinigol a gwasanaeth eu monitro bob wythnos a rhennir perfformiad â'r tîm gweithredol ac uwch reolwyr. Trafodir unrhyw fylchau mewn arbedion nas nodwyd mewn cyfarfodydd perfformiad misol ar lefel weithredol a rhoddir systemau cymorth priodol ar waith os oes angen. Caiff y cyfarfod adolygu ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n rhoi'r cyfle i'r Cyfarwyddwr Cyllid a chyfarwyddwyr gweithredol eraill herio cynlluniau arbedion byrddau clinigol a gwasanaeth, eu risgiau allweddol o ran cyflawni a rhagolygon ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Hefyd, bob mis bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol yn adolygu'r tracwyr ar gyfer rhaglenni gwella costau gyda phenaethiaid cyllid byrddau clinigol.

- 94 Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno mesurau uwchgyfeirio newydd ar gyfer byrddau clinigol a gwasanaeth nad ydynt yn rhagweld y byddant yn mantoli'r gyllideb. Mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio'r Cyfarfod Rhagolygon Ariannol newydd a dim ond byrddau clinigol a gwasanaeth a uwchgyfeiriwyd at y Cyfarwyddwr Cyllid sydd angen bod yn bresennol. Bydd gwasanaethau a uwchgyfeiriwyd yn 'camu i lawr' pan ragamcenir y byddant yn mantoli'r gyllideb. Ar adeg ein gwaith maes, roedd un bwrdd clinigol wedi'i uwchgyfeirio ac roedd un cyfarfod wedi'i gynnal.
- 95 Ar lefel weithredol, bydd cyfarwyddiaethau yn monitro eu cynlluniau arbedion ac yn adrodd i fyny i gyfarfodydd byrddau clinigol a gwasanaeth. O ran rheoli meddyginiaethau, mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli perfformiad cryf. Mae gan y Bwrdd Iechyd grŵp rheoli meddyginiaethau corfforaethol, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr byrddau clinigol a phenaethiaid fferylliaeth a chyllid. Bydd cyfarwyddwr meddygol neu bennaeth fferylliaeth yn cadeirio'r cyfarfod, sy'n adrodd i Fwrdd Rheoli Gwasanaethau Ysbyty. Gan fod y gwaith o reoli meddyginiaethau wedi'i ddatganoli, mae gan bob bwrdd clinigol grŵp rheoli meddyginiaethau sy'n adrodd i gyfarfodydd byrddau clinigol, ac yna i'r grŵp rheoli meddyginiaethau corfforaethol. Mae rheoli meddyginiaethau hefyd yn thema drawsbynciol felly caiff y gwaith o gyflawni arbedion ei fonitro drwy'r Grŵp Llywio Trawsbynciol.
- 96 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o ddulliau o rannu syniadau a dysgu gwersi. Yn fewnol, nodir arfer da drwy:
- gyfarfodydd un i un misol rhwng y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a phenaethiaid cyllid;
 - y cyfarfodydd adolygu perfformiad gweithredol;
 - mewn cyfarfodydd bwrdd trawsglinigol fel cyfarfodydd 'Turning the Curve' a gynhelir bob pythefnos; a
 - thrwy e-bost wythnosol bwrdd arweinwyr y traciwr rhaglen gwella costau, a anfonir at bob uwch arweinydd ac sy'n cynnwys y traciwr arbedion ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan fel bob pawb yn gweld cynlluniau ei gilydd.
- 97 Ar lefel genedlaethol, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o'r grŵp effeithlonrwydd cenedlaethol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid yn arwain fframwaith effeithlonrwydd Cymru gyfan, ac yn annog cyrff iechyd i rannu eu cynlluniau arbedion a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae cyfarwyddwr Cymru gyfan a dirprwy gyfarwyddwyr fforymau cyllid hefyd yn rhannu arfer gorau ac yn ei drafod. Ceir fforymau rheoli meddyginiaethau cenedlaethol hefyd, er enghraifft, grŵp cymheiriaid y prif fferyllwyr, a grŵp fferylliaeth a chyllid ar y cyd, sydd â ffrwd gwaith penodol ar arbedion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gynrychioli ar y ddau fforwm hyn.
- 98 Yn 2016, gwnaethom yr argymhellion canlynol gennym mewn perthynas ag adrodd ariannol. Mae **arddangosyn** 8 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 8: cynnydd ar argymhellion cynllunio ariannol 2016

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
A1 Atgyfnerthu'r trefniadau adrodd ariannol drwy gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr adroddiad ariannol i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Cyllid yn gysylltiedig â'r canlynol: a. dangosfwrdd sy'n rhoi crynodeb o berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad ariannol allweddol; a b. materion yn gysylltiedig â chymau sy'n cael eu cymryd i reoli gorwariant yn erbyn y gyllideb a sicrhau arbedion angenrheidiol fesul maes clinigol, a manylion am hynny.	Cwblhawyd Mae'r Adroddiad Cyllid a gyflwynwyd i'r pwyllgor cyllid a'r Bwrdd yn cynnwys: a. dangosfwrdd perfformiad cyllid sy'n gysylltiedig â'r system goleuadau traffig; ac b. adran ar berfformiad ariannol byrddau clinigol sy'n cynnwys naratif ar fyrddau clinigol sy'n gorwario yn erbyn eu cyllidebau a chymau i unioni hyn. Mae hefyd adran ar berfformiad o ran arbedion gyda thabl wedi'i atodi, sy'n dadansoddi perfformiad fesul bwrdd clinigol.

Mae trefniadau gweithredol yn effeithiol ar y cyfan ond mae gwendidau o ran goruchwyliaeth a sicrwydd y Bwrdd, ac nid yw'n debygol y caiff y rheoliadau newydd ar ddiogelu data eu bodloni ar amser

99 Mae'r gwaith a wnaed gennym fel rhan o'r asesiad strwythuredig ar gyfer 2017 wedi ystyried trefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer cynllunio, effeithiolrwydd y strwythurau llywodraethu, trefniadau llywodraethu gwybodaeth a threfniadau rheoli perfformiad. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn 2016. Nodir ein canfyddiadau isod.

Mae gwaith cynllunio strategol yn effeithiol ar y cyfan ac yn fwyfwy unedig ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae'r gwaith o graffu ar gyflawni yn parhau i afael bwlch ar lefel Bwrdd a phwyllgor, er gwaethaf y gwaith monitro agos ar lefel weithredol

100 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull cynllunio strategol y Bwrdd lechyd a'r trefniadau sy'n cefnogi'r broses o gyflawni rhaglenni newid strategol sy'n sail i'r cynllun gweithredu blynyddol. Hefyd, rydym wedi adolygu'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol yn ymwneud â chynllunio strategol. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

101 Fel y nodwyd yn flaenorol, methodd y Bwrdd lechyd â chyflawni ei ddyletswydd o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn 2016-17 ac ni wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo cynllun tymor canolig integredig tair blynedd y Bwrdd lechyd. Ar gyfer 2017-18, ac am yr ail flwyddyn yn olynol, mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn gweithio yn unol â chynllun gweithredu blynyddol.

102 Ym mis Ionawr 2017, cyflwynodd y Bwrdd lechyd ddrafft cychwynnol o'i gynllun gweithredu blynyddol i Lywodraeth Cymru, oedd yn cynnwys diffyg arfaethedig o £69.9 miliwn. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd lechyd ailgyflwyno'r cynllun ym mis Mawrth 2017, gan wella'r sefyllfa o ran y diffyg arfaethedig. Cafodd fersiwn ddiwygiedig y cynllun ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2017, gyda

diffyg arfaethedig gwell o £45.8 miliwn. Fodd bynnag, oherwydd maint y diffyg arfaethedig, nid oedd y Bwrdd mewn sefyllfa i'w gymeradwyo. Yn lle hynny, cefnogodd ei fabwysiadu, gan gydnabod bod angen gwneud mwy o waith. Ailystyriodd y Bwrdd y cynllun gweithredu blynyddol ym mis Mai 2017, lle cytunodd i gyflawni diffyg nad oedd yn waeth na £30.9 miliwn.

- 103 Er bod cynllun blynyddol y Bwrdd lechyd ar gyfer 2017-18, mae'n dal i fod wedi'i ysgrifennu mewn cyd-destun tair blynedd (2017-18 i 2019-20). Mae'r cynllun yn cynnwys adran sy'n nodi'r cyd-destun strategol sy'n cynnwys y sbardunau lleol canlynol ar gyfer newid:
- newidiadau o ran y boblogaeth, yn bennaf poblogaeth sy'n heneiddio a thwf yn y boblogaeth;
 - deddfwriaeth newydd, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant;
 - cyfleoedd ym maes technoleg, fel cadw i fyny â datblygiadau technolegol;
 - heriau o ran y gweithlu, a nodir yn risg fyrdymor, ond gyda chyfleoedd i weld arloesedd o ran y gweithlu; ac
 - seilwaith TG ac ystadau sy'n heneiddio.
- 104 Mae'r cynllun gweithredu blynyddol yn nodi ei fod yn adlewyrchu strategaeth 10 mlynedd Llundain Dyfodol ein Lles a Fframwaith Cynllunio'r GIG.
- 105 Dengys adolygiad o bapurau Bwrdd 2017 fod y Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar waith cynllunio a datblygu cynllun tymor canolig integredig. Ym mis Gorffennaf 2017, derbyniodd y Bwrdd bapur yn manylu ar y broses o ddatblygu cynllun tymor canolig integredig 2018-19, gan gynnwys cerrig milltir allweddol fel dyddiadau cyflwyno a chymeradwyo. Mae'r papur hefyd yn nodi meysydd gwella ar gyfer cynllun tymor canolig integredig y Bwrdd lechyd ac ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol byrddau clinigol a gwasanaeth sy'n bwydo i mewn iddo. Mae'r gwelliannau yn anelu at sicrhau bod penderfyniadau yn amserol a bod sicrwydd wedi'i bennu ar y lefel gywir. Y meysydd i'w gwella yw:
- ymwneud â'r gwaith o fireinio Bwriadau Comisiynu'r Bwrdd lechyd;
 - atgyfnerthu'r Fframwaith Comisiynu Strategol;
 - pethau clir ac amserol i'w cyflawni yn y cynllun tymor canolig integredig ar gyfer 2018-19 a thu hwnt;
 - cysoni swyddogaethau corfforaethol (fel cyllid, y gweithlu a datblygu sefydliadol, rheoli gwybodaeth a thechnoleg, a nyrsio corfforaethol), â'r broses gynllunio; ac
 - atgyfnerthu proses achos busnes y Bwrdd lechyd.
- 106 Er ei bod yn beth cadarnhaol bod y Bwrdd yn ystyried datblygiad y cynllun tymor canolig integredig yn rheolaidd, mae bylchau craffu ar lefel pwyllgor. Cafodd y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad ei ddiddymu ym mis Mai 2017, a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb am graffu ar gynllunio strategol i'r Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu newydd. Cyfarfu'r pwyllgor hwn am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2017. Ym mis Medi, derbyniodd y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu fwriadau comisiynu drafft y Bwrdd lechyd. Gwnaethom arsylwi ar y cyfarfod ac roedd yn glir nad oedd y pwyllgor eto'n ddigon aeddfed i graffu ar y cynllun yn fanwl, yn rhannol am nad oedd cylch gwaith y pwyllgor yn glir eto.
- 107 Yn 2016, nodwyd gennym fod y gwaith o graffu ar gyflawni'r cynllun tymor canolig integredig yn ddarniog ar lefel Bwrdd a phwyllgor, ac mae hyn yn broblem o hyd. Er bod diweddariadau rheolaidd ar gynllunio a datblygu'r cynllun tymor canolig integredig, prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod y Bwrdd a'i

bwyllgorau wedi cael digon o ddiweddariad ar gyflawni'r cynllun. Trafodir hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

- 108 Fodd bynnag, yn gyffredinol mae Cyfarwyddwyr Gweithredol o'r farn bod y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa well eleni am fod gwell cysylltiadau rhwng gwaith cynllunio a chyllid. Hefyd, caiff y pethau i'w cyflawni yn y cynllun tymor canolig integredig eu rheoli'n fwy cadarn yn ariannol ac o ran perfformiad ar lefel weithredol. At hynny, mae'r broses o gynllunio'r cynllun tymor canolig integredig yn gryfach erbyn hyn ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at sicrhau gwell cydbwysedd rhwng perfformiad, cyllid ac ansawdd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi parhau i wella ei broses flynyddol o reoli gofal wedi'i gynllunio, yn benodol cyflawni targedau Atgyfeirio i Driniaeth, a gyflawnwyd am yr 11 chwarter diwethaf a gwelwyd y sefyllfa 36 wythnos orau ers saith mlynedd.
- 109 Yn 2016, gwnaed yr argymhellion canlynol gennym mewn perthynas â chynllunio strategol ac adrodd. Mae **Arddangosyn 9** yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 9: cynnydd ar argymhellion cynllunio strategol ac adrodd 2016

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>A3 Wrth ddatblygu cynllun tair blynedd 2017-18, sicrhau::</p> <ol style="list-style-type: none"> cysylltedd clir rhwng y cynllun tymor canolig a'i strategaeth tymor hwy, yn ogystal â'i ofynion a'i gynlluniau strategol eraill, fel y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a dealltwriaeth glir o'r budd a ddisgwylir yn sgil y camau a'r blaenoriaethau a nodir yn ei gynllun. 	<p>Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto</p> <ol style="list-style-type: none"> Mae cynllun blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 yn amlinellu'r cysylltiad strategol sy'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Hefyd, mae'n nodi ei fod yn adlewyrchu strategaeth 10 mlynedd Llunio Dyfodol ein Lles y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfres o gynlluniau i wella ei gynllun tymor canolig integredig; manylwyd ar hyn yn y papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017. Roedd un o'r gwelliannau yn cynnwys pethau clir ac amserol i'w cyflawni yn y cynllun tymor canolig integredig ar gyfer 2018-19 a thu hwnt.
<p>A4 Sefydlu'r Pwyllgor Cynllunio Strategol ar frys er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i graffu ar ddatblygiad cynllun tair blynedd 2017-18.</p>	<p>Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto</p> <p>Cafodd y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2017. Roedd hyn ar ôl i'r cynllun blynyddol gael ei ddatblygu, ond mae'r pwyllgor yn ei le i graffu ar gynllun 2018-19.</p>

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>A5 Atgyfnerthu'r adroddiadau ar gynnydd wrth gyflawni yn erbyn y cynllun, gan gynnwys agweddau a nodwyd yn ein hadolygiad cymharol o adroddiadau cynnydd, a sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn rheolaidd gan y pwyllgor Cynllunio Strategol yn unol â gofynion Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-20.</p>	<p>Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto Atgyfnerthwyd y broses ar lefel weithredol h.y. drwy adolygiadau rheoli perfformiad byrddau clinigol a gwasanaeth, ond nid yw hynt cyflawniadau eto'n cael ei ystyried yn ddigonol gan y ddau bwyllgor newydd sydd wedi cymryd lle'r pwyllgor pobl, cynllunio a pherfformiad.</p>
<p>A6 Cynnal gwerthusiad o gapasiti cynllunio er mwyn rhoi sic rwydd i'r Bwrdd bod gan y Bwrdd lechyd gapasiti a gallu cynllunio digonol o fewn y sefydliad. Dylai'r gwerthusiad hefyd gynnwys ei gapasiti rheoli newid er mwyn lleihau hyd yr eithaf yr angen i'r Bwrdd lechyd gomisiynu cefnogaeth allanol yn barhaus.</p>	<p>Ni wnaed fawr ddim cynnydd os o gwbl Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Bwrdd lechyd wedi adolygu ei allu a'i adnoddau cynllunio. Fodd bynnag, ers ein hasesiad strwythuredig yn 2016 mae aelod o'r tîm cynllunio wedi gadael, ac nid oes neb wedi cymryd ei le.</p>

Mae strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd yn parhau i aeddfedu, gyda champau yn cael eu cymryd i wella'r cydweithio ar draws y sefydliad, er bod pryderon ynghylch adnoddau llywodraethu corfforaethol o hyd

- 110 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 111 Yn 2017, ni wnaeth y Bwrdd lechyd unrhyw newidiadau i strwythur y sefydliad, ond mae tîm gweithredol llawn bellach ar waith. Ymunodd y Prif Weithredwr newydd â'r sefydliad ym mis Gorffennaf 2017, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ym mis Hydref ac, ar adeg ein gwaith maes, roedd y Bwrdd lechyd wrthi'n penodi Prif Swyddog Gweithredu parhaol. Cawsom adborth cadarnhaol ynghylch y ffordd y mae'r Prif Weithredwr wedi ymgartrefu o fewn y sefydliad. Roedd y rheini y gwnaethom gyfweled â nhw o'r farn bod y Prif Weithredwr yn glir ynghylch ei feysydd â blaenoriaeth, yn arbennig gwella sefyllfa ariannol y sefydliad, a'i fod yn dangos parch, i'w weld o gwmpas y lle, a'i bod yn hawdd mynd ato.
- 112 Mae'r strwythur presennol yn cynnwys wyth bwrdd clinigol ac un bwrdd gwasanaeth, a gefnogir i gyd gan alluogwyr integredig fel cyllid a'r gweithlu. Er bod y strwythur yn addas at y diben, mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod ei fod yn peri'r risg o hyrwyddo gweithio seilo. O ganlyniad, yn ddiweddar, mae'r tîm gweithredol wedi cymryd camau i annog trawsweithio rhwng byrddau clinigol a gwasanaeth, er enghraifft drwy sbarduno sgysiau drwy gyfarfodydd adolygu perfformiad misol. Mae gwasanaethau eraill fel ystadau a chyfleusterau, TGCh a gwybodeg yn gweithio ar draws byrddau clinigol a gwasanaeth. Mae'r byrddau clinigol yn cael cymorth gan yr adrannau hyn fel sydd ei angen. Dywedwyd wrthym fod y system hon yn gweithio ar y cyfan. Fodd bynnag, ar adegau roedd angen brocera ar lefel weithredol er mwyn datrys problemau gweithredol sy'n gofyn am fewnbwn galluogwr.

Awgryma hyn fod angen gweithdrefnau cliriach ar gyfer cael cymorth gan adrannau sy'n gweithio ar draws byrddau clinigol.

- 113 Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'i dîm yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o herio a darparu cyngor a chymorth llywodraethu i swyddogion gweithredol ar faterion nad ydynt wedi cyrraedd y Bwrdd na'i bwyllgorau eto. Mae ein gwaith asesu strwythuredig dros nifer o flynyddoedd wedi codi pryderon am allu ac adnoddau'r tîm llywodraethu corfforaethol. Ym mis Ebrill 2017, gwnaeth Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol newydd ymuno â'r tîm. Fodd bynnag, roedd yn swydd barhaol a fu'n wag ers diwedd 2015. Mae'r tîm hefyd wedi cael budd o hyfforddai graddedig, sydd ar secondiad i'r tîm, ond nid yw hwn yn drefniant parhaol. Golyga hyn nad yw'r tîm wedi ehangu ac mae gallu ac adnoddau yn dal i fod yn broblem.
- 114 Yn 2016, gwnaed yr argymhelliad canlynol gennym mewn perthynas â strwythur y sefydliad. [Mae Arddangosyn 10](#) yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 10: cynnydd ar argymhelliad 2016 ynghylch strwythur y sefydliad

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
A12 Cynnal gwerthusiad pellach o'r capasiti llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd lechyd gapasiti a gallu llywodraethu digonol o fewn y sefydliad i roi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd. Dylid gofyn am farn aelodau annibynnol ynghylch pa sicrwydd sydd ei angen yn rhan o'r gwerthusiad hwn.	Ni wnaed fawr ddim cynnydd os o gwbl Mae swydd barhaol y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol wedi'i llenwi, ond nid yw hyn wedi gwella gallu nac adnoddau'r tîm Llywodraethu Corfforaethol. Mae gan y tîm hyfforddai rheoli graddedig, ond mesur dros dro yw hyn.

Nid yw'r Bwrdd na rhai o'i bwyllgorau yn darparu digon o oruchwyliaeth fanwl a chyson, yn rhannol oherwydd trosiant aelodau, a nes i'r ddau bwyllgor newydd gael eu sefydlu'n llawn, mae risgiau i sicrwydd perfformiad a chynllunio

- 115 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd, ei strwythurau llywodraethu a'i drefniadau sicrwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 116 Eleni, mae'r Bwrdd lechyd, ynghyd ag eraill yng Nghymru, wedi wynebu trosiant sylweddol ymhlith ei aelodau annibynnol. Mae pedwar aelod wedi gadael, gan gynnwys is-gadeirydd y Bwrdd, a chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. At hynny, roedd gan y Bwrdd lechyd dri lle gwag ar gyfer aelodau annibynnol. Wedi recriwtio saith aelod annibynnol newydd yn ystod 2017 fel bod y Bwrdd yn llawn, roedd dau aelod annibynnol arall yn bwriadu gadael ar ddiwedd mis Rhagfyr 2017. O blith y saith aelod annibynnol newydd, dim ond un oedd â phrofiad blaenorol o eistedd ar Fwrdd y GIG. Rhoddodd hyn bwysau cynyddol ar y Bwrdd lechyd i sicrhau bod aelodau annibynnol newydd yn barod am y rôl drwy ei raglen datblygu ar gyfer y Bwrdd.
- 117 Er mwyn rheoli risgiau i barhad y Bwrdd, a sicrhau cyfnod pontio llyfn i aelodau annibynnol newydd, mae aelodau annibynnol sy'n gadael wedi darparu datganiad etifeddol ac wedi cynnig rhoi cyngor ar ôl

gadael. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu rhaglen sefydlu, a gynhelir rhwng mis Hydref 2017 a mis Ionawr 2018. Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- cyflwyniad i'r Bwrdd Iechyd;
- sesiynau un i un gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol;
- hyfforddiant a seminarau Cymru gyfan drwy Academi Cymru a Chyddfederasiwn y GIG;
- ymweliadau safle; a
- sesiynau datblygu'r Bwrdd.

- 118 Nawr bod y saith aelod annibynnol newydd yn eu rolau, mae'r Bwrdd Iechyd am fireinio ei raglen o deithiau diogelwch cleifion. Bydd hyn yn helpu aelodau newydd i feithrin gwell dealltwriaeth o'r ffordd mae wardiau a gwasanaethau unigol yn gweithio. Bydd hefyd yn gwneud aelodau annibynnol yn fwy gweladwy i staff.
- 119 Drwy arsylwi ar y Bwrdd a'r pwyllgorau allweddol⁵, gwelom arwyddion fod y lefel o graffu, herio, a gweinyddu pwyllgorau yn amrywio rhwng pwyllgorau. Mae hyn yn rhannol oherwydd nifer o newidiadau i'r Bwrdd fel aelodau annibynnol newydd, cadeiryddion pwyllgorau newydd a sefydlu dau bwyllgor newydd. Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cynrychioli dau o'r pwyllgorau sy'n cael eu rhedeg yn well. Cafodd y pwyllgorau hyn eu cadeirio gan gadeirydd y Bwrdd dros dro, tra bod aelodau annibynnol yn cael eu recriwtio, ond mae cadeiryddion newydd bellach wedi cael eu penodi. Mae gan y ddau bwyllgor hyn agendâu cytbwys a rhoddir sylw da i faterion â blaenoriaeth, cânt eu cadeirio'n dda a chânt eu gweinyddu'n dda. Fodd bynnag, prin fu'r craffu a'r herio yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgorau eraill, wrth i aelodau annibynnol newydd ymgartrefu. Hefyd mae'r broses o lanlwytho papurau'r Pwyllgor Cyllid i wefan y Bwrdd Iechyd yn araf. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd deufis o bapurau ar goll (mis Hydref a mis Tachwedd).
- 120 Yn dilyn adolygiad y Bwrdd Iechyd o strwythur ei bwyllgorau ym mis Ebrill 2016, penderfynwyd rhannu'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad yn ddau bwyllgor newydd. Fodd bynnag, bu oedi yn gwneud hyn nes i rolau gwag aelodau annibynnol gael eu llenwi a bod gan y tîm llywodraethu fwy o allu ac adnoddau i sefydlu'r pwyllgorau newydd. Ym mis Mawrth 2017, cytunodd y Bwrdd i frwr ymlaen â'r penderfyniad hwn ac, ym mis Mai 2017, diddymwyd y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad. Cynhaliodd y ddau bwyllgor newydd, Strategaeth ac Ymgysylltu ac Adnoddau a Chyflawni, eu cyfarfodydd cyntaf ddiwedd yr haf.
- 121 Yn sgil arsylwi ar y ddau bwyllgor newydd, mae'n amlwg eu bod ar gamau cynnar; ar adeg yr adolygiad hwn, dim ond dwywaith roedd y ddau wedi cyfarfod. Er bod gan y ddau bwyllgor gylch gorchwyl, nid yw eu cylch gwaith yn glir ac mae angen adolygu cydbwysedd agenda'r ddau bwyllgor. Dengys **Arddangosyn 11** pa agweddau ar fusnes y Bwrdd Iechyd y caiff pob pwyllgor sicrwydd yn eu cylch a'u monitro, fel y nodir yn eu cylch gorchwyl. Dengys hyn fod gan y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu gylch gwaith llawer mwy o faint na'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni, sydd ond yn ymdrin ag elfennau perfformiad yr hen Bwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad. Mae risg y bydd y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu yn cael ei orlwytho, a oedd yn un o'r rhesymau dros rannu cyfrifoldebau'r

⁵Fel rhan o'n gwaith asesu strwythuredig, gwnaethom arsylwi ar y Bwrdd a'r pwyllgorau canlynol – Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Ansawdd Diogelwch a Phrofiad, Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu, Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni a'r Pwyllgor Archwilio

Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad, yn ogystal â'r risg o ystyried materion rhyng-gysylltiedig ar wahân fel strategaeth a chynllunio, ochr yn ochr â'r gweithlu. Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r ddau bwyllgor mewn chwe mis ac mae'n cynnal cyfarfod ym mis Rhagfyr er mwyn trafod dyfodol y Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni. Mae'r oedi rhwng diddymu'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad, sefydlu'r pwyllgorau newydd a nawr aros iddynt ymsefydlu yn golygu bod y Bwrdd yn wynebu bylchau mewn sicrwydd o ran cynllunio strategol a pherfformiad.

Arddangosyn 11: cymharu cyfrifoldebau'r Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu a'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni.

Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu	Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni
<p>Yn arbennig bydd y Pwyllgor yn monitro ac yn derbyn sicrwydd ynghylch y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth • Cydweithio • Cynllun tymor canolig integredig • Ymgysylltu • Cyfalaf • Datblygu masnachol. 	<p>Yn arbennig bydd y Pwyllgor yn monitro ac yn derbyn sicrwydd ynghylch y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gweithredu Fframwaith Cyflawni Llywodraeth Cymru a thargedau eraill â blaenoriaeth; a • dangosyddion allweddol y gweithlu, datblygu sefydliadol a pherfformiad.

Ffynhonnell: Cylch gorchwyl y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu a'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni

- 122 Yn gyffredinol, caiff y Bwrdd a'i bwyllgorau bapurau drwy adroddiad eglurhaol ar ffurf templed; mae hyn yn sicrhau eglurder ac y cwmpesir gwybodaeth bwysig. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau wedi'u hysgrifennu'n dda, maent yn nodi'n glir o ble y gellir cael sicrwydd ac maent yn dynodi diben y papur, er enghraifft i'r Bwrdd neu'r pwyllgor nodi, ardystio neu gymeradwyo. Mae cofnodion cyfarfodydd hefyd yn nodi'n glir benderfyniadau, camau gweithredu cytûn a'r prif bwyntiau trafod. Fodd bynnag, ni chaiff adroddiadau eglurhaol eu darparu ar gyfer pob adroddiad a chodwyd pryderon am yr amser mae'n ei gymryd i gynhyrchu cofnodion. Hefyd, mae lle i leihau maint papurau'r Bwrdd a phwyllgorau, y mae rhai ohonynt yn 900 tudalen. Gallai'r swm o wybodaeth lesteirio gwaith craffu da ac mae angen i swyddogion adrodd drwy eithriad. Fel rhan o'r adolygiad o strwythur y Bwrdd a'i bwyllgorau yn 2016, cytunwyd na fyddai adroddiadau eglurhaol yn fwy na 2-3 ochr ac y byddai adroddiadau llawn yn cael eu cynnwys ar ffurf hyperddolen. Ni chaiff y broses hon ei gweithredu'n gyson eto. Mae Cadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr wedi cydnabod bod disgyblaeth o ran y papurau wedi gwanhau ac maent yn cymryd camau i fynd i'r afael â hynny.
- 123 Yn ystod 2017, bodlonodd y Bwrdd ei ofynion adrodd blynyddol drwy gyhoeddi ei adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys ei ddatganiad llywodraethu blynyddol, datganiad ansawdd blynyddol a'r cyfrifon o fewn yr amserlen ofynnol. Yn 2016, gwnaed yr argymhellion canlynol gennym mewn perthynas ag effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau. Mae [Arddangosyn 12](#) yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 12: cynnydd ar argymhellion a wnaed yn 2016 ynglŷn ag effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>A8 Sicrhau cydymffurfio â holl ofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (cyfeirnod WHC/2016/22) ar roi adroddiadau tryloyw i'r cyhoedd. Yn benodol, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod modd cyrraedd y rhain yn hawdd ar wefan y Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynllun i ymgysylltu â dinasyddion; • polisi cwynion/codi pryderon; a • pholisi amseroedd ymweld hyblyg. 	<p>Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto</p> <p>Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys dolen ar yr hafan Saesneg i dudalen yn dwyn y teitl 'get involved with your Health Board'. Mae'r dudalen hon yn cynnwys dolenni i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gyfleoedd gwirfoddoli • profiad gwaith • pryderon, cwynion a chanmoliaeth • ymgysylltu ac ymgynghori ac • arolygon cleifion <p>Mae dolen arall ar yr hafan yn dwyn y teitl 'information for patients, carers and visitors' yn mynd â chi at wybodaeth am amseroedd ymweld ysbytai.</p> <p>Ers ein hasesiad strwythuredig yn 2016, fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Pwyllgor Cyllid newydd. Ni chaiff papurau ategol y pwyllgor hwn eu rhoi ar wefan y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol.</p>
<p>A9 Fel mater o frys, dylid sicrhau bod holl swyddi gwag aelodau annibynnol yn cael eu llenwi, a bod deiliaid yn eu swyddi i gefnogi gweithrediad pwyllgorau yn unol â rheolau cworwm.</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Gwnaeth y Bwrdd Iechyd recriwtio saith aelod annibynnol newydd ac mae'r Bwrdd yn llawn. Mae aelodaeth pwyllgorau wedi'i hadolygu a'i gwella, a phenodwyd cadeiryddion newydd ar gyfer y Pwyllgorau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a'r Pwyllgor Cyllid, yr oedd y ddau yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd y Bwrdd. Mae dau aelod annibynnol arall yn bwriadu gadael ar ddiwedd mis Rhagfyr, a fydd yn creu rhagor o fylchau yn aelodaeth y Bwrdd. Fodd bynnag, mae camau eisoes yn cael eu cymryd i lenwi'r rolau hyn.</p>

124 Yn 2016, gwnaethom gynnal adolygiad manwl o Fframweithiau Sicrwydd Byrddau ar draws y GIG yng Nghymru. Roedd Fframwaith Risg Gorfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd, sy'n cyfuno Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r gofrestr risg gorfforaethol, yn cymharu'n dda â chyrff eraill y GIG yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd cyfleoedd i wella ac, yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau cynnal adolygiad cyffredinol o'r Fframwaith hwn, a drafodir ymhellach yn adran rheoli risg yr adroddiad hwn sy'n dilyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen i brosesau rheoli risg wella ac mae'n adolygu prosesau rheoli risg gweithredol a chorfforaethol. Fodd bynnag, oherwydd problemau gallu ac adnoddau o fewn y tîm llywodraethu corfforaethol bydd y broses hon yn un araf

- 125 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a chynnydd o ran mynd i'r afael â phroblemau gwella a nodwyd yn flaenorol a oedd yn ymwneud â rheoli risg. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 126 Mae'r Fframwaith Risg Gorfforaethol a Sicrwydd yn cyfuno cofrestr risg gorfforaethol y Bwrdd â fframwaith sicrwydd y bwrdd. Mae'r Fframwaith wedi bod ar waith ers pedair blynedd ac mae wedi ymsefydlu'n dda; fodd bynnag, cydnabu'r Bwrdd Iechyd fod angen i brosesau rheoli risg wella er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd. Felly, ym mis Mai 2017, cynhaliwyd sesiwn ddatblygu i'r Bwrdd ar reoli risg. Arweiniodd y gweithdy, a gynhaliwyd gan gwmni allanol, at nifer o gamau i wella prosesau rheoli risg, y mae rhai ohonynt eisoes wedi'u gweithredu. Er enghraifft, cyflwyno gwell adroddiadau ar risgiau i'r Bwrdd a phwyllgorau drwy sicrhau bod adroddiadau yn fwy gweledol ac yn cyflwyno risgiau isel ac uchel.
- 127 Mae'r Fframwaith yn ddogfen fyw a lanlwythir i wefan y Bwrdd Iechyd. Caiff y ddogfen ei diweddarau fel y caiff risgiau eu diweddarau, fel arfer yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd neu bwyllgor. Mae'r Fframwaith wedi'i gynllunio'n rhesymegol. Caiff pob risg ei neilltuo i'r Bwrdd neu bwyllgor er mwyn ei goruchwyllo, ceir swyddog gweithredol arweiniol, ac mae'n amlwg pa fwrdd clinigol neu wasanaeth y mae pob risg yn gymwys iddo. Fodd bynnag, wrth adolygu'r ddogfen, ni chaiff nifer o risgiau eu disgrifio'n dda, nid oes ganddynt gerrig milltir ac nid yw risgiau wedi'u cysoni ag amcanion fel y nodir yn strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd. Gwnaethom adolygu'r Fframwaith a ddiweddarwyd ym mis Medi ac ym mis Tachwedd 2017 ac ni chafwyd unrhyw newid o ran yr 87 o risgiau, er iddynt gael eu hadolygu yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Er bod y ddogfen yn fyw ac wedi'i dyddio, nid yw'n glir pryd yr ychwanegwyd pob risg yn gyntaf, na pha risgiau a ddiweddarwyd a phryd.
- 128 Fel y nodwyd yn gynharach, cafodd y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad ei ddiddymu ym mis Mai 2017. Roedd nifer o risgiau ynghlwm wrth y pwyllgor hwn, na chawsant eu hailddyranu i'r ddau bwyllgor newydd tan fis Tachwedd 2017, gan olygu bod bwch o bum mis o ran goruchwyliaeth a sicrwydd.
- 129 Mae'n amlwg bod angen gwelliannau pellach ac mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n cynnal adolygiad helaeth o brosesau rheoli risg a'r Fframwaith. Y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol sy'n arwain y gwaith hwn ac mae wedi bod yn gweithio ar y canlynol:
- treialu canllawiau cofrestru risgiau a nodi risgiau byr i staff. Diben hyn yw egluro'r broses o reoli risgiau a helpu i nodi a disgrifio risgiau'n glir;
 - gweithio gyda byrddau clinigol a gwasanaeth er mwyn sicrhau mai dim ond risgiau priodol a gaiff eu huwchgyfeirio i'w cynnwys yn y Fframwaith;
 - sicrhau bod gan bob tîm corfforaethol gofrestr risg fel bod y Fframwaith yn ystyried pob risg gorfforaethol;
 - adolygu risgiau unigol ar y Fframwaith presennol gyda'r prif bwyllgor neu'r Bwrdd er mwyn asesu p'un a yw'n perthyn i'r Fframwaith. Datblygwyd adroddiad templed a gaiff ei dreialu gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch; ac.
 - chysoni pob risg ar y Fframwaith ag amcanion strategol 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd.

- 130 Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at lansio fersiwn newydd o'r Fframwaith ym mis Ebrill 2018, er y bydd llawer o'r camau gweithredu a ddisgrifir uchod yn dal i fod yn mynd rhagddynt. Caiff polisi rheoli risg y Bwrdd Iechyd, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2013, yn cael ei adolygu yn unol â'r broses hon. Mae'r adolygiad hwn yn un mawr a phwysig a phrin yw'r gallu a'r adnoddau i'w gynnal. Bydd y cynnydd a welir yn araf am mai dim ond rhan o rôl y Pennaeth Llywodraethu yw hwn ac nid oes gan aelodau eraill o'r tîm Llywodraethu Corfforaethol arbenigedd ym maes rheoli risg.
- 131 Yn 2016, gwnaed yr argymhelliad/argymhellion canlynol gennym mewn perthynas â rheoli risg. Mae **Arddangosyn 13** yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 13: cynnydd ar argymhelliad rheoli risg 2016.

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>A7 Adolygu'r modd y caiff amcanion eu diffinio yn y Fframwaith Sicrwydd Risg Corfforaethol, er mwyn hyrwyddo'r gallu i adnabod llwyddiant, a'r hyn sydd angen ei wneud i gyflawni'r amcanion hyn, gan sicrhau y caiff y rhain eu halinio ymhellach â'r rhai a nodir yn y cynllun deng mlynedd.</p>	<p>Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad sylweddol o'r Fframwaith a phrosesau rheoli risg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu lansio'r Fframwaith newydd ym mis Ebrill, a fydd yn cysoni risgiau ag amcanion yn y strategaeth 10 mlynedd ac yn cynnwys disgrifyddion risg clir.</p> <p>Mae cyfle hefyd i adolygu'r risgiau strategol i gyflawni amcanion corfforaethol a'r sicrwydd gofynnol, gan atgyfnerthu fframwaith sicrwydd cyffredinol y bwrdd, ynghyd â gwella'r Fframwaith a phrosesau rheoli risg cyffredinol.</p>

Nid yw trefniadau llywodraethu gwybodaeth y Bwrdd Iechyd wedi datblygu digon eto i weithredu'r Rheoliad Cyffredinol newydd ar Ddiogelu Data erbyn mis Mai 2018

- 132 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 133 Tan yn ddiweddar, roedd gan y Bwrdd Iechyd ddau bwyllgor oedd yn gyfrifol am graffu ar lywodraethu gwybodaeth, a rheoli gwybodaeth a thechnoleg. Roedd y ddau bwyllgor hyn yn adrodd i'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad. Ym mis Hydref, cafodd y ddau bwyllgor hyn eu huno'n un pwyllgor sef y Pwyllgor Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu, sydd bellach yn adrodd i'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni.
- 134 Mae angen i bob Corff Iechyd sicrhau ei fod yn cynnal diogelwch, cyfrinachedd a hygyrchedd cofnodion cleifion a gwybodaeth sensitif arall. Gorfodir y gofyniad hwn drwy'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000), gofynion GIG Caldicott a deddfwriaeth bresennol Deddf Diogelu Data 1998 a gaiff ei disodli cyn bo hir gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data⁶.

⁶Rheoliad yr UE ar Ddiogelu Data <http://www.eugdpr.org/eugdpr.org.html>

- 135 Yn 2016, nododd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 'sicrwydd cyfyngedig' o ran trefniadau diogelu data'r Bwrdd Iechyd, a gwnaeth nifer o argymhellion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau mynd i'r afael â'r argymhellion hyn drwy gydol 2017, gyda chynllun gweithredu wedi'i ddogfennu a threfniadau monitro ar waith. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn dal i fynd rhagddynt er y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r rhain er mwyn bod yn gwbl barod ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- 136 Daw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data i rym ar 25 Mai 2018 ac maent yn cyflwyno rhai newidiadau sylweddol i ofynion ac egwyddorion diogelu data. Mae'r Rheoliad hwn yn cyflwyno newidiadau i hawliau a rhyddid mewn perthynas â gwrthrych y data ac maent yn cynnwys y newidiadau canlynol:
- ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr o bob achos o dorri rheoliadau data lle ceir risg i hawliau gwrthrych y data;
 - lleihau'r terfynau amser a ganiateir i ymateb i geisiadau gan wrthrych data i 30 diwrnod;
 - mae cwmpas y Ddeddf bellach yn ymestyn y tu hwnt i ffin Ewrop, ar gyfer prosesu data gwrthrychau data Ewropeaidd. Gall hyn effeithio ar Gyrrff Iechyd sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil byd-eang;
 - gall cosbau am fynd yn groes i'r polisi gyrraedd terfyn uchaf o 4% o'r trosiant, neu €20 miliwn (pa un bynnag sydd fwyaf); a
 - newidiadau o ran hawliau gan gynnwys hawliau i gael gweld data, yr hawl i anghofio data a dileu data a gwella eglurder cynnwys.
- 137 Mae'r Bwrdd Iechyd, o dan arweiniad yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth, wedi cydnabod y newidiadau deddfwriaethol ac mae wedi rhoi rhaglen drawsnewid ar waith i asesu parodrwydd ar gyfer rhoi'r gofynion newydd ar waith o dan y Rheoliad. Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd cychwynol, mae nifer o gamau gweithredu yn mynd rhagddynt o hyd ac mae angen gwneud rhagor o welliannau. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu a chwblhau Cofrestr Asedau Gwybodaeth, penodi Swyddog Diogelu Data, Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer llifau gwybodaeth a phrosesu rhwydwaith o berchenogion asedau gwybodaeth a'i ddatblygu ymhellach, lle bo angen. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau ar waith i weithredu gofynion y Rheoliad erbyn mis Mai 2018.
- 138 Mae hefyd gyfle i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth yn 2018 drwy ddiweddarau ei ddull strategol o lywodraethu gwybodaeth a chysoni hyn â'r strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddigidol genedlaethol. Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm llywodraethu gwybodaeth bach canolog, felly prin yw'r adnoddau ar gyfer rhoi arweiniad a hyfforddiant gorfodol ar lywodraethu gwybodaeth a chyfrinachedd. Mae'r pwysau ar adnoddau yn arbennig o heriol ar gyfer y swyddogaethau hyn, wrth weithredu trefniadau effeithiol i fodloni gofynion newydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- 139 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen hyfforddi orfodol ar lywodraethu gwybodaeth a ddylai gael ei chwblhau gan bob aelod o staff bob dwy flynedd. Ar hyn o bryd mae 55% o staff yn derbyn hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth, o gymharu â'r targed sef 85%. Gall rhaglen hyfforddi'r Bwrdd Iechyd ar lywodraethu gwybodaeth helpu i liniaru risgiau mynediad amhriodol staff i gofnodion meddygol cleifion a datgeliad amhriodol gwybodaeth gyfrinachol oherwydd safonau cadw cofnodion gwael a chamgymeriadau dynol.

- 140 Mae Gwasanaeth Gwybodeg cenedlaethol y GIG wedi cyflwyno Pecyn Cymorth newydd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Gofal Sylfaenol i bob meddygfa o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r meddygfeydd hynny sy'n rheolwyr data wrthi'n cwblhau'r Pecyn Cymorth ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth erbyn diwedd 2017. Nid yw Deintyddion nac Optometryddion wedi'u cynnwys yn y gofyniad hwn eto. Nid oedd y trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phecyn cymorth llywodraethu gwybodaeth gofal sylfaenol na rôl y Bwrdd Iechyd o fewn y fframwaith hwn yn glir yn ystod ein gwaith.
- 141 Yn ogystal â'r gweithgaredd cydymffurfiaeth hwn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn ymateb i geisiadau gan wrthrych gwybodaeth statudol mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Mae lle i'r Bwrdd Iechyd wella ei berfformiad yn erbyn targedau statudol ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth, yn enwedig ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Roedd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn 2016-17 ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol, o gymharu â'r targed cenedlaethol o 95% fel a ganlyn:
- 64% mewn perthynas â cheisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; a
 - 74% mewn perthynas â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data.
- 142 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ei fod yn gwneud rhywfaint o waith paratoi er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion diogelu data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r ddeddfwriaeth diogelu data newydd ond bydd angen iddo ddarparu mwy o adnoddau er mwyn bodloni gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn effeithiol o fewn y terfynau amser. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau ei fod yn parhau i ymateb i geisiadau i gael gweld gwybodaeth statudol, y disgwylir iddynt godi ar ôl i'r Rheoliad gael ei roi ar waith, mewn modd amserol. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i adolygu ei adnoddau dros y chwech i ddeuddeg mis nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas i fodloni'r gofynion hyn.

Mae prosesau rheoli gwybodaeth gweithredol yn gadarn ac yn gynhwysfawr, ond nid yw goruchwyliaeth y Bwrdd na phwyllgorau yn effeithiol eto

- 143 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd trefniadau rheoli perfformiad a chynnydd o ran mynd i'r afael â phroblemau gwella a nodwyd yn flaenorol a oedd yn ymwneud â rheoli perfformiad. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 144 Ar lefel weithredol mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli perfformiad cryf. Mae'r tîm gweithredol yn dwyn pob bwrdd clinigol a gwasanaeth i gyfrif drwy gyfarfodydd adolygu perfformiad misol (ar wahân i'r bwrdd clinigol deintyddol, sy'n cael cyfarfod adolygu bob deufis). Y Prif Weithredwr sy'n cadeirio'r cyfarfodydd ac roedd pob cyfarwyddwr gweithredol yn rhan o'r panel craffu. Cynhelir yr holl gyfarfodydd adolygu perfformiad yn yr un wythnos ac nid ydynt yn para mwy nag awr a hanner. Drwy gynllunio'r cyfarfodydd fel hyn, sicrhau bod iddynt ffocws ac y gall y tîm gweithredol gyfleu negeseuon cyson ar draws yr holl fyrddau clinigol a gwasanaeth.
- 145 Mae'r agendâu a'r papurau ar gyfer cyfarfodydd adolygu perfformiad yn gytbwys ac yn glir. Maent yn cwmpasu:
- perfformiad ariannol, sy'n cynnwys y rhagamcanion ar gyfer diwedd y flwyddyn a hynt cynlluniau gwella costau;
 - perfformiad yn erbyn Haen 1 a thargedau lleol, wedi'u dosbarthu fesul ansawdd, y gweithlu a gweithgarwch;

- cynnydd yn erbyn pethau i'w cyflawni yn y cynllun tymor canolig integredig; a
 - thrafodaeth am risgiau ehangach a datrysiadau ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 146 Fel rhan o'r adolygiad hwn, gwnaethom arsylwi ar amrywiaeth o gyfarfodydd, a gwelwyd herio cryf gan gyfarwyddwyr gweithredol, ond roedd timau rheoli byrddau clinigol hefyd yn cael cymorth ac anogaeth lle bo'n briodol. Treuliyd y rhan fwyaf o'r cyfarfod yn rhoi sylw i hynt cynlluniau tymor canolig integredig byrddau clinigol, ond hefyd cafwyd trafodaethau da ynghylch materion cenedlaethol, diweddariadau ac annog gweithio trawsglinigol o fewn y bwrdd. Roedd y rhai y gwnaethom gyfsweld â nhw yn gadarnhaol ynghylch y cyfarfodydd adolygu perfformiad.
- 147 Ar lefel pwyllgor, dylai'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni newydd fod yn craffu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni ym mis Tachwedd, y gwnaethom arsylwi arno, derbyniodd y pwyllgor adroddiad lefel uchel ar berfformiad yn erbyn targedau allweddol Haen 1 a blaenoriaethau lleol eraill. Ni chafodd yr adroddiad ei drafod ac roedd yn cynnwys llai o fanylion na'r adroddiad ar berfformiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd. Nid oedd unrhyw destun i egluro perfformiad, materion na risgiau cyfredol.
- 148 Mae'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni hefyd yn gyfrifol am roi sicrwydd i'r Bwrdd ar berfformiad y gweithlu. Yng nghyfarfod mis Tachwedd 2017, cafodd y pwyllgor gyflwyniad chwe-misol ar y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun y gweithlu a datblygu sefydliadol 2017-18. Fodd bynnag, ni ddarparwyd papurau cyn y cyfarfod, a wnaeth lesteirio proses graffu ystyrllon.
- 149 Caiff dangosfyrddau perfformiad cynhwysfawr eu cynhyrchu ar gyfer y cyfarfodydd adolygu perfformiad misol ar lefel weithredol. Dylai'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni weld crynodeb o'r dangosfyrddau hyn, sy'n dangos data yn ôl bwrdd clinigol a gwasanaeth. Yn 2016, gwnaethom argymhelliad i'r perwyl hwn ond ni fu unrhyw gynnydd yn ei gylch. Drwy weithredu'r argymhelliad hwn caiff y pwyllgor drosolwg mwy manwl o berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ansawdd, y gweithlu a gweithgarwch, ynghyd â chyflawni'r cynllun tymor canolig integredig (creffir ar gyllid yng nghyfarfod misol y Pwyllgor Cyllid). Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor fod perfformiad yn cael ei reoli ar draws y sefydliad a bod y cyfarfodydd adolygu perfformiad yn effeithiol, a all wedyn gael ei adrodd i'r Bwrdd. Bydd adroddiadau clir a mwy cynhwysfawr ar berfformiad yn tynnu sylw at feysydd lle gall fod angen i'r pwyllgor gael mwy o sicrwydd yn eu cylch, drwy ofyn am adroddiad manwl neu adolygiad trylwyr o faes penodol o berfformiad.
- 150 Caiff y Bwrdd adroddiad manwl ar berfformiad. Mae'n cynnwys dangosfwrdd gyda'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol ac adroddiad eithriad ar fesurau a flaenoriaethwyd gan y Bwrdd neu lle mae perfformiad wedi dirywio. Mae gan y Bwrdd Iechyd 60 o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n cynnwys targedau Haen 1 a thargedau blaenoriaeth lleol. Mae'r dangosfwrdd perfformiad yn defnyddio system goleuadau traffig ac, ym mis Tachwedd 2017, roedd 19 o ddangosyddion perfformiad allweddol gwyrdd, 24 o rai melyn ac 17 o rai coch. Ymhlith y meysydd a ystyriwyd yn berfformiad coch roedd:
- cyflawni'r safonau mynediad canser 31 diwrnod a 62 diwrnod;
 - lleihad mewn C. Difficile a Staphylococcus Aureus Bacteraemia (MRSA); ac
 - arosiadau pedair awr mewn adrannau brys.
- 151 Hefyd, cafodd cydymffurfiaeth â'i ofynion ariannol a nifer o ddangosyddion y gweithlu eu cynnwys.
- 152 Yn 2016, gwnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â rheoli perfformiad ar lefel pwyllgor. Mae **Arddangosyn 14** yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 14: cynnydd ar argymhellion rheoli perfformiad 2016

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>A10 Fel mater o frys, sefydlu'r Pwyllgor 'Adnoddau a Chyflawni' newydd er mwyn sicrhau trefniadau cadarn i graffu ar berfformiad y Bwrdd lechyd.</p>	<p>Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni newydd; fodd bynnag, ar gamau cynnar yn unig y mae'r pwyllgor ac nid yw wedi ymsefydlu'n llawn nac yn gwbl effeithiol eto.</p>
<p>A11 Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am berfformiad yn cael ei darparu i'r Pwyllgor 'Adnoddau a Chyflawni' newydd, gan gynnwys rhannu adolygiadau perfformiad y bwrdd clinigol, i'w alluogi i ganolbwyntio ar feysydd perfformiad y mae angen craffu arnynt yn fwyaf manwl.</p>	<p>Ni wnaed fawr ddim cynnydd os o gwbl Ni wnaed unrhyw gynnydd mewn perthynas â'r argymhelliad hwn eto.</p>

Mae gweithlu ac ystadau yn cefnogi nodau'r Bwrdd lechyd yn gynyddol, ond mae gwybodeg yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny

153 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

Mae dulliau recriwtio, cadw a chefnogi rheoli'r gweithlu yn effeithiol ar y cyfan, ac er bod rhai agweddau ar hyfforddi a datblygu yn peri heriau, mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw

154 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau i reoli'r gweithlu mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

155 Mae gan y Bwrdd lechyd gynllun cyflawni ar gyfer y gweithlu a datblygu sefydliadol, sy'n rhan o'i gynllun gweithredu blynyddol. Mae'r cynllun cyflawni yn seiliedig ar bum amcan allweddol, sef:


- gweithlu effeithlon;
- gweithlu cynaliadwy;
- gweithlu galluog;
- gweithlu trawsnewidiol; a
- gweithlu ymgysylltiedig.

156 Bob chwe mis bydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar lefel pwyllgor yn erbyn cynllun y gweithlu a datblygu sefydliadol. Yn flaenorol, y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad a gawsai'r wybodaeth hon ond y Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni newydd sy'n ei chael bellach. Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni y gwnaethom arsylwi arno, roedd y papur a gyflwynwyd yn fanwl, ond ni chafodd ei ddarparu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod, a wnaeth atal craffu arno'n gywir.

- 157 Creffir ar ddangosyddion perfformiad allweddol y gweithlu ar lefel weithredol drwy grwpiau fel cyfarfodydd perfformiad gweithredol misol a chyfarfodydd misol Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Ysbyty. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, nid yw gwybodaeth o adolygiadau o berfformiad yn cyrraedd pwyllgorau na'r Bwrdd. Yn flaenorol, byddai dangosfwrdd ar gyfer y gweithlu yn cael ei gyflwyno i'r hen Bwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad, a dylai'r Bwrdd lechyd ystyried ei ailgyflwyno ar gyfer y Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni newydd er mwyn sicrhau bod mwy o sicrwydd yn cael ei roi i'r Bwrdd.
- 158 Ar adeg ein hadolygiad, dim ond yn ddiweddar roedd Cyfarwyddwr newydd y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi ymuno â'r sefydliad, felly gwnaethom gyfnewid â'r cyfarwyddwr dros dro oedd yn y swydd. Yn 2017, mae'r Bwrdd lechyd wedi llwyddo i lenwi pob rôl barhaol yn y tîm gweithredol, mae pob pennaeth nyrsio yn ei swydd, nid oes unrhyw fylchau ar lefel cyfarwyddwr cynorthwyol ac mae 14 o feddygon uned brys newydd. Fodd bynnag, mae recriwtio nyrsys band 5, cyfarwyddwr clinigol ar gyfer offthalmoleg, cyfarwyddwr gweithrediadau meddygaeth, a meddygon ymgynghorol ym meysydd radioleg niwroymyrrol, seiciatreg, a llawfeddygaeth bediatrig yn dal i fod yn broblem.
- 159 Tra bod recriwtio yn broblematic ar gyfer rhai proffesiynau ac arbenigeddau yn y Bwrdd lechyd, mae'r Bwrdd lechyd wedi cynnal lefelau cymharol isel o gostau asiantaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn 2015-16 a 2016-17, roedd gan y Bwrdd lechyd un o'r cyfraddau isaf o gostau asiantaeth (fel cyfran o'r holl wariant ar y gweithlu) o gymharu â chyrrff ieuchyd eraill yng Nghymru. Hefyd, er i gyfartaledd Cymru gyfan gynyddu o 4.1% i 4.7%, cynhaliodd y Bwrdd lechyd gostau asiantaeth o 1.6% o gyfanswm y gwariant ar y gweithlu.
- 160 Mae'r Bwrdd lechyd wedi canolbwyntio ar leihau costau asiantaeth, gyda chynhyrchiant y gweithlu yn un o'i themâu trawsbynciol. Mae'r thema yn ymdrin â chynhyrchiant meddygol, nyrsio ac anghlinigol ac mae gan bob is-thema raglen o weithgareddau sy'n anelu at gynyddu cynhyrchiant a chyflawni targedau arbed costau. Er enghraifft, nod 'Prosiect 95%' yw llenwi 95% o'r holl swyddi nyrsio bandiau 5 a 6 parhaol erbyn mis Mawrth 2018, a thrwy hynny leihau costau asiantaethau nyrsio a chreu gweithlu sefydlog. Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi defnyddio nyrsys asiantaeth cost uchel, di-gontract ers mis Mai 2016 ac mae'n anelu at wneud yr un peth gyda Gweithwyr Cymorth Gofal lechyd. Mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n cynnal archwiliad o gynllun swyddi meddygon ymgynghorol, gan edrych yn benodol ar gynlluniau swyddi â mwy na 12 o sesiynau a thri gweithgaredd proffesiynol ategol; ac mae'n mynd i'r afael â goramser staff gweinyddol a chlercol.
- 161 Hefyd, mae gan y Bwrdd lechyd fentrau sy'n anelu at foderneiddio a gwella ffyrdd o weithio, sydd o fudd i gleifion a staff, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin. Er enghraifft, mae wedi datblygu ap i'w gwneud yn haws i 'nyrsys cronfa' drefnu gweithio sifftiau, sydd yn ei dro yn lleihau'r amser a gaiff ei dreulio yn trefnu rhestrau dyletswyddau. Nod prosiect 'Ward Enghreifftiol', sy'n cael ei dreialu ar ddwy ward, yw hyrwyddo bwyta'n iach drwy sicrhau bod y cyfuniad cywir o staff ar wardiau a gweithio mewn ffordd wahanol. Er enghraifft, cynorthwywyr deieteg ar wardiau sy'n gweithio gyda nyrsys a staff cymhennu. Hefyd mae'r Bwrdd lechyd yn cyflwyno mwy o wasanaethau yn y gymuned, er enghraifft ffisiotherapyddion mewn meddygfeydd, sy'n lleihau'r angen am wasanaethau mewn ysbytai.
- 162 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyfradd trosiant staff y Bwrdd lechyd wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan. Yn 2015-16, y gyfradd gyffredinol oedd 9.7% o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 8.7%, ac yn 2016-17 y gyfradd oedd 10%, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 9.6%. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r amser recriwtio cyfartalog wedi lleihau ar draws y GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, dengys **Arddangosyn 15** fod yr amser

cyfartalog i recriwtio yn y Bwrdd lechyd wedi cynyddu 2.3 diwrnod rhwng 2015-16 a 2016-17. Yn 2016-17, roedd yn cymryd 11.1 diwrnod yn fwy ar gyfartaledd i recriwtio yn y Bwrdd lechyd na chyfartaledd Cymru gyfan.

Arddangosyn 15: amser cyfartalog i recriwtio yn y Bwrdd lechyd o gymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru rhwng 2013-14 a 2016-17




Ffynhonnell: Data gan Wasanaethau Recriwtio'r GIG; cronfa ddata gweithgarwch recriwtio 2013-16, system recriwtio TRAC 2016-17. DS: Nid yw'n cynnwys cymeradwyo swydd wag.

- 163 Yn ystod 2017, mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau i wella arferion recriwtio fel arwain ymgyrchoedd recriwtio ar y cyd lle mae angen swyddi tebyg ar sawl cyfarwyddiaeth a thrwy rannu arfer da o fewn y sefydliad. Erbyn hyn mae gan y Bwrdd lechyd gylch rheolaidd o hyfforddeion rheoli graddedig ac mae'n gwella o ran rhagweld niferoedd, gan ragweld niferoedd derbyn hyd at fis Medi 2018. O ran recriwtio nyrsys, mae'r Bwrdd lechyd wedi cyflogi rheolwr a swyddog recriwtio, sydd wedi arwain ymgyrchoedd recriwtio fel recriwtio 104 o weithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn awyddus i ddatblygu ei arlwy prentisiaethau ac, fel y cyfryw, mae ganddo weithgor ac mae'n lansio fframwaith prentisiaethau. Bydd y brentisiaeth yn canolbwyntio ar y rhai sy'n gadael yr ysgol a phobl fwy profiadol. Prif nod y fframwaith yw dangos llwybrau addysgol i wahanol yrfaeod a dyrchafiadau, er enghraifft o weithiwr gofal iechyd i nyrs. Fodd bynnag, mae'r fframwaith hefyd yn ystyriol o'r ffaith y bydd rhai am aros a rhagori yn eu rolau presennol. Mae'r Bwrdd lechyd am fod yn sefydliad sy'n croesawu'r rheini heb radd.
- 164 Mae'r Bwrdd lechyd wedi llwyddo i ostwng cyfraddau salwch, yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Dengys **Arddangosyn 16** fod cyfraddau salwch yn y Bwrdd lechyd wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ond, ers 2014, mae cyfraddau wedi dechrau gostwng ac, ar 4.9% yn 2016, roeddent yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 5.2%. Fodd bynnag, ceir cyfraddau uchel o salwch

ymhlith rhai grwpiau o staff fel cynorthwyrwyr iechyd, gweithwyr cymorth a staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd, ond mae hyn yn debyg i fyrddau iechyd eraill. Ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targed i leihau salwch 4.2%. Ym mis Medi 2017, roedd perfformiad yn 4.8%.

- 165 Mae gwella iechyd a llesiant staff yn allweddol i ostwng cyfraddau salwch a chael gweithlu mwy cynhyrchiol. Wrth gydnabod ei ymrwymiad i lesiant cyflogaion, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd Safon Iechyd Corfforaethol aur a phlatinwm, sy'n safon genedlaethol a gaiff ei hasesu'n allanol. Tanlinellodd yr aseswyr nifer o gryfderau, oedd yn cynnwys cyfranogiad yr undeb a pherchenogaeth o'r agenda iechyd a llesiant, darpariaethau arlwyio iach a'r graddau y mae gwerthoedd ac ymddygiadau'r Bwrdd Iechyd yn ategu ei agenda llesiant. Hefyd, nododd yr aseswyr rai meysydd i'w datblygu ymhellach, fel rhannu ei gyflawniadau o fewn y sefydliad a thu hwnt, cyrraedd grwpiau o staff nad yw wedi llwyddo i'w cyrraedd yn y gorffennol fel porthorion, staff arlwyio ac ystadau a datblygu gwaith ymhellach ar lesiant meddwl.

Arddangosyn 16: Cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn y Bwrdd Iechyd, o gymharu â chyfartaledd Cymru rhwng 2012 a 2016



Ffynhonnell: Cofnod staff electronig y GIG. Casglwyd gan Wasanaethau'r Gweithlu, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru. Data o wefan StatsCymru.

- 166 Mae 13 o fodiwlau hyfforddiant statudol a gorfodol, ac mae'n rhaid i bob aelod o staff clinigol ac anghlinigol eu cwblhau. Yna, rhaid i staff sicrhau eu bod yn mireinio eu hyfforddiant rhwng blwyddyn a thair blynedd yn dibynnu ar y cwrs. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targed o 85%; fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch lefelau uchel o ddiffyg cydymffurfio yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella cyfraddau hyfforddiant gorfodol drwy wneud hyfforddiant

yn fwy hygyrch. Er enghraifft, drwy sicrhau bod mwy o gyrsiau ar gael fel modiwlau e-ddysgu a gwella'r cofnod staff electronig. Bydd y cofnod staff electronig gwell yn diweddar cofnodion hyfforddi staff yn awtomatig pan gwblheir e-ddysgu, yn anfon negeseuon atgoffa ynghylch hyfforddiant a bydd modd cael gafael arno ar ffonau deallus a llechi. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal tair ymgyrch hyfforddiant gorfodol bob blwyddyn (ym mis Mai, mis Medi a mis Tachwedd) lle caiff hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ei gynnal ar gyfer staff y mae'n well ganddynt ddysgu fel hyn. Caiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol ei monitro drwy gyfarfodydd adolygu perfformiad gweithredol, ond nid yw'n rhan o'r dangosfwrdd perfformiad a adroddir i'r Bwrdd, na'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni. Yn y cyfarfodydd y gwnaethom arsylwi arnynt, gwnaeth swyddogion gweithredol gyfleu neges gref i'r timau rheoli yn y byrddau clinigol ynghylch cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol. Roedd Cyfarwyddwr dros dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn hyderus y byddai perfformiad yn gwella dros y chwe mis nesaf.

- 167 Ym mis Medi 2017, roedd cyfraddau adolygiadau datblygu arfarnu perfformiad staff anfeddygol yn 57%, ac roedd cyfraddau arfarnu perfformiad meddygol yn 76%. Mae'r ddau islaw'r targed corfforaethol o 85%, sy'n golygu bod angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar hynny.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau strategol er mwyn sicrhau bod ei ystad yn addas at y dyfodol gan ymateb hefyd i broblemau presennol sy'n ymwneud â dirywiad rhannau o'r ystad bresennol

- 168 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o reoli ystadau ac asedau. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 169 Mewn asesiadau strwythuredig blaenorol, rydym wedi tynnu sylw at gyflwr ystadau'r Bwrdd Iechyd, gan nodi ei fod yn peri risg sylweddol. Yn 2016, gwnaethom nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei ffocws ar ystadau, gan roi diweddariadau rheolaidd ar lefel pwyllgor. Gwnaethom hefyd gwblhau adolygiad ar wahân o ystadau, a danlinellodd y camau cadarnhaol roedd y Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i wella'r modd y rheolir yr ystadau, ond argymhellodd y byddai'n cael budd o gyflwyno cynllun strategol i lywio gweithgareddau.
- 170 Yn 2017, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ystadau a rhoddodd archwiliad mewnol o drefniant y Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli cydymffurfiaeth â gofynion statudol 'sicrwydd rhesymol'. Er bod ôl-groniad cyffredinol y Bwrdd Iechyd o waith cynnal a chadw yn lleihau, mae'r lefel o risgiau sylweddol⁷ yn cynrychioli'r ail uchaf yng Nghymru, sef £26 miliwn. Mae'r rhan fwyaf o hyn yn gysylltiedig â safle Ysbyty Athrofaol Cymru. O ystyried risg barhaus ystad sy'n heneiddio, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu cyfres o gynlluniau rheoli ystadau. Cafodd papur diweddar ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Mae'r cynlluniau ar gyfer ystadau yn cynnwys:
- cynlluniau gwasanaethau clinigol, gan gynnwys cynlluniau rhanbarthol fel y rhai sy'n rhan o Raglen De Cymru, cynlluniau mewn partneriaeth â byrddau iechyd eraill, a chynlluniau i ddarparu mwy o wasanaethau yn y gymuned ac yn agosach i gartref;
 - cynllun ystadau ar gyfer y degawd nesaf, a fydd yn nodi'r blaenoriaethau i'w datblygu er mwyn sicrhau bod y seilwaith cywir ar waith i gefnogi gwasanaethau clinigol a rheoli galw yn y lleoliadau / amgylcheddau mwyaf priodol; a

⁷ Yn seiliedig ar Adroddiad Dangosfwrdd Ystad y GIG ar gyfer 2016-17

- chynllun meistr ar gyfer Ysbyty Athrofaol Cymru, sy'n gynllun hirdymor i ddisodli'r safle.

171 Mae'r Bwrdd hefyd wedi parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion eraill sy'n ymwneud ag ystadau fel newidiadau rheoli traffig ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru a'r cynllun gweithredu drafft ar gyfer teithio cynaliadwy a pharcio ceir.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu nifer o heriau o ran ei drefniadau ar gyfer defnyddio technoleg gwybodaeth, defnyddio systemau TG cenedlaethol a chael gafael ar yr adnoddau priodol i gyflawni'r rhaglen amlinellol strategol ar gyfer gwybodeg

172 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r gwasanaethau gwybodeg. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

173 Datblygodd y Bwrdd Iechyd ei Raglen Amlinellol Strategol ar gyfer Gwybodeg ar gyfer 2016-2021 a chyflwynodd y rhaglen honno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2016. Cytunodd Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd Iechyd ar y Rhaglen Amlinellol Strategol ym mis Medi 2016. Er ei bod yn cyd-fynd â'r strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddigidol genedlaethol, nid yw'r rhan fwyaf o'r cyllid cyfalaf a refeniw sydd ei angen i gyflawni'r Rhaglen Amlinellol Strategol wedi'i neilltuo'n llawn eto. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ailflaenoriaethu'r rhaglen hon yn seiliedig ar lefelau adnoddau cenedlaethol cynaliadwy cyfredol sydd ar gael a cheisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y dull gweithredu strategol diwygiedig ar ddechrau 2018, er, yn y cyfamser, mae wedi datblygu cynllun blynyddol ar gyfer 2017-18, sy'n amlinellu amcanion a blaenoriaethau gwybodeg yn ystod y flwyddyn.

174 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gofyn i'w fyrddau clinigol gyflwyno achosion busnes arfaethedig dros fentrau a hwylusir gan TG i newid gwasanaethau, sicrhau arbedion effeithlonrwydd a moderneiddio, at ddibenion herio a chraffu. Hefyd, sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp 'turning the curve' o glinigwyr, ym mis Hydref 2017, er mwyn edrych ar ffyrdd o gyflawni amgylchedd digidol clinigol mwy effeithiol. Mae'r tîm gwybodeg yn chwarae rôl gynghori allweddol i gefnogi'r broses o ddatblygu achosion busnes, llywio prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch y defnydd gorau o TG a rhoi atebion technoleg diogel a chadarn ar waith.

175 Yn hanesyddol, mae adran wybodeg y Bwrdd Iechyd wedi profi cyfyngiadau mewn cyllid cyfalaf a refeniw ac, o fewn yr amgylchedd hwn, mae'n ceisio cydbwysu ei hadnoddau a chanolbwyntio ar y canlynol:

- yr agweddau gweithredol ar y gwaith o gynnal a chadw a chefnogi'r seilwaith TG presennol a ddefnyddir ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd o ddydd i ddydd, yn ogystal ag adnewyddu technolegau a systemau sy'n heneiddio er mwyn gwella cadernid systemau, er enghraifft, uwchraddio'r llwyfan technoleg desg a ddefnyddir a rheolaethau canolfannau data yn 2017;
- ymgymryd â gofynion newydd megis cymorth technoleg ar gyfer mentrau'r Bwrdd Iechyd, er enghraifft, ymchwilio i lync ar gyfer busnesau ar gyfer mentrau teleiechyd ac iechyd digidol, ei dreialu a'i weithredu; a
- chefnogi mentrau a datblygiadau newydd megis datblygiad technolegau sy'n helpu i drawsnewid gwasanaethau clinigol pan fo angen, er enghraifft, defnyddio technolegau cyfarwyddyd digidol, rhoi systemau mawr ar waith yn ogystal â mentrau TG cenedlaethol.

176 Mae'r hyn a etifeddodd y Bwrdd Iechyd gan ei ystad ac amgylchedd TG, sy'n cynnwys seilwaith systemau TG oedrannus a disodli systemau TG etifeddol, er enghraifft, y system batholeg, a hefyd

systemau gwahanol, sy'n cefnogi swyddogaethau tebyg ar draws ei safleoedd, yn parhau. Mae hyn yn golygu bod cefnogi'r systemau yn heriol ac y gallai gyfyngu ar y broses o safoni arfer clinigol, llifau gwaith effeithlon ar draws safleoedd a chysondeb ac amseroldeb wrth gyflwyno gwybodaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gwneud buddsoddiadau â blaenoriaeth o dan ei raglen gyfalaf 'cadw'r goleuadau ynghynn', er mwyn disodli seilwaith TG sy'n heneiddio.

- 177 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â nifer o broblemau o ran disodli systemau TG etifeddol, er enghraifft, Theatrau a Phatholeg, wrth aros i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru gyflwyno'r rhaglen TG genedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu problemau gyda chostau cymorth a thrwyddedu caledwedd a meddalwedd, gyda'r posibilrwydd na fydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gallu cyflwyno'r systemau TG cenedlaethol erbyn diwedd 'oes' y system etifeddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disodli systemau gweithredu a dyfeisiau hŷn, nas cefnogir, fel Windows Server 2003 a Windows XP, erbyn mis Chwefror 2018 gyda dyfeisiau wedi'u diweddarau.
- 178 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau sy'n gysylltiedig ag ymosodiadau seiber gan fod y lefel isel o fuddsoddiad mewn seilwaith TG ac adnoddau gwybodeg yn cynyddu'r risg o fygythiadau posibl sy'n gysylltiedig ag ymosodiadau seiber. Diweddarodd a chymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei bolisi Gwybodaeth a Diogelwch TG yn 2017, a allai helpu i liniaru rhai o'r risgiau hyn os caiff y polisi ei fabwysiadu'n effeithiol gan staff. Er nad effeithiodd ymosodiad seiber 'Wannacry' ar y GIG ym mis Mai 2017 yn ddifrifol ar y Bwrdd Iechyd, bu'n drafferthus i'r adran wybodeg wrth orfod treulio amser yn asesu'r bygythiadau ac atgyweirio systemau TG neu eu huwchraddio. Ers ymosodiad seiber 'Wannacry' ar y GIG, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn uwchraddio'r gofrestr o asedau TG ar gyfer y dyfeisiau rhwydwaith a ddefnyddir, ac mae wedi parhau i uwchraddio pwyntiau mynediad diwifr sy'n heneiddio. Er bod y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno dyfeisiau newydd yn lle'r rhai sy'n defnyddio Windows Server 2003 a Windows XP, nid oes ganddo swyddog na thîm diogelwch TG penodol na'r adnoddau i nodi ac asesu risgiau i seiberddiogelwch a mynd i'r afael â hwy gan ddefnyddio dull gweithredu strategol integredig.
- 179 Gall y Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ymhellach y Dangosyddion Perfformiad TG Allweddol a fesurir ac yr adroddir arnynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn mesur Dangosyddion Perfformiad TG Allweddol ond mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad y ddesg wasanaeth TG a datrys galwadau. Gall y Bwrdd Iechyd atgyfnerthu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol TG a fesurir drwy nodi achos ac effaith digwyddiadau er mwyn gallu canfod a chywiro diffygion yn rhagweithiol.
- 180 Mae prosesau ar waith i nodi, rheoli a thracio materion a risgiau gwybodeg lleol a chenedlaethol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd ac ymhlith yr enghreifftiau mae:
- cyflymder, amseroldeb ac effeithiolrwydd cynlluniau cenedlaethol parhaus ar gyfer defnyddio'r systemau TG cenedlaethol sy'n weddill gan gynnwys modiwlau'r System Rheoli Gwybodaeth Labordai, y FUJI PACS newydd a'r System Gwybodaeth Gofal Cymunedol newydd i Gymru;
 - effeithiolrwydd y cymorth a'r ddarpariaeth gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a monitro lefelau perfformiad gwasanaethau;
 - cynlluniau TG ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer mewn Trychineb sydd ond wedi cael eu datblygu, eu cymeradwyo a'u profi'n gyson mewn rhai o feysydd byrddau clinigol;
 - y defnydd o ddyfeisiau meddygol gan fyrddau clinigol nad ydynt yn hysbys, wedi'u caffael na'u rheoli gan yr adran Wybodeg. Gallai risg i seiberddiogelwch fod yn gysylltiedig â'r dyfeisiau meddygol hyn os oes gwendidau o fewn eu cynllun diogelwch technegol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nifer o ddyfeisiau meddygol a ddefnyddir ar draws byrddau clinigol, er enghraifft,

dyfeisiau monitro fetysau, dyfeisiau uwchsain a sganwyr MI, sy'n defnyddio systemau gweithredu nad ydynt yn gyfredol mwyach ac na ellid eu huwchraddio'n hawdd; a

- phryderon ynghylch storio cofnodion meddygol papur yn ddiogel yn lleoliadau'r Bwrdd Iechyd ac argaeledd cofnodion gofal iechyd pan fo eu hangen.

Atodiad 1

Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2017

Nid oedd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd wedi'i gwblhau adeg cyhoeddi.

Arddangosyn 18: ymateb y rheolwyr

Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1	Ar gyfer 2018-19, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio gwybodaeth fel data meincnodi er mwyn nodi targedau ymestyn fesul achos mewn meysydd lle gellid gwneud mwy o arbedion.					
A2	Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â fframwaith cynllunio'r GIG, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu yn craffu'n rheolaidd ar gyflawni'r cynllun gweithredu blynyddol, a chynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd dilynol.					

Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A3 Er mwyn galluogi proses graffu effeithiol, mae angen i'r Bwrdd lechyd wella ansawdd ei bapurau i'r Bwrdd a Phwyllgorau drwy sicrhau bod hyd a chynnwys y papurau a gyflwynir yn briodol ac yn hwylus.						
A4 Er mwyn gwella tryloywder, mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod papurau'r Pwyllgor Cyllid ar gael ar ei wefan yn amserol.						

Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>A5 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei fframwaith sicrwydd risg gorfforaethol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fapio risgiau yn ôl amcanion strategol y Bwrdd Iechyd; • adolygu'r sicrwydd gofynnol; • gwella eglurder disgrifyddion risg; a • egluro wrth y darllenydd pryd y caiff risgiau eu diweddarau a/neu eu hychwanegu. 						

Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>A6 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth yn barod am y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a ddaw i rym ym mis Mai 2018. Dylai hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diweddarau'r strategaeth llywodraethu gwybodaeth; • rhoi trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â phhecyn cymorth llywodraethu gwybodaeth gofal sylfaenol; a • datblygu a chwblhau Cofrestr Asedau Gwybodaeth; • sicrhau bod swyddog diogelu data dynodedig wedi'i benodi; a • gwella cyfraddau hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth. 						

<p>A7 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y lefel o wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni am ei berfformiad yn ddigonol i alluogi'r Pwyllgor i graffu'n effeithiol. Dylai hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth fanylach am berfformiad na'r hyn a gaiff y Bwrdd. Dylid ystyried cynnwys crynodeb o ddangosfyrddau'r Bwrdd Clinigol a Gwasanaeth a ddefnyddir yn yr adolygiadau rheoli perfformiad gweithredol misol; • ehangu'r amrywiaeth o fetrigau perfformiad i gynnwys ystod ehangach o ddangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â'r gweithlu. Dylid ystyried ailedrych ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol blaenorol ar gyfer y gweithlu a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad blaenorol. 						
--	--	--	--	--	--	--

Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A8 Mae angen i'r Bwrdd lechyd ailedrych ar ei Gynllun Amlinellol Strategol ar gyfer Gwybodeg yn sgil yr adnoddau ariannol sydd ar gael a cheisio cymeradwyaeth y Bwrdd o ran y dull gweithredu strategol diwygiedig.						
A9 Er mwyn sicrhau gwydnwch wrth wynebu problemau diogelwch, fel seiberymosodiadau, dylai'r Bwrdd lechyd ystyried nodi adnodd penodol ar gyfer rheoli diogelwch TG.						
A10 Er mwyn sicrhau y creffir ar wasanaeth gwybodeg y Bwrdd lechyd, dylai'r Bwrdd lechyd ehangu'r amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â gwybodeg i gynnwys achos ac effaith digwyddiadau gwybodeg.						

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru